Pecyn Dogfen Cyhoeddus

At: Aelodau Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)

Dyddiad: 11 Hydref 2022

Deialu Union: 01824 712568

e-bost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Fe'ch gwahoddir i ddod i gyfarfod o'r **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** am **10.00 am, DYDD MERCHER, 19 HYDREF 2022 TRWY CYFRWNG FIDEO**.

Yn gywir

Gary Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**MYFYRIO TAWEL**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 5 - 6)

Aelodau i ddatgan cysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 10)

Derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2022.

**5 NEWYDDLEN YR HAF SIR DDINBYCH 2022** (Tudalennau 11 - 14)

Derbyn Newyddlen yr Haf Sir Ddinbych a Chonwy 2022.

**6 CWRICWLWM I GYMRU, MAES LLAFUR CYTUNEDIG SIR DDINBYCH AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG A CHANLLAWIAU ATEGOL** (Tudalennau 15 - 52)

Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, Maes Llafur Cytunedig Sir Ddinbych ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r Canllawiau Ategol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG 2020-21** (Tudalennau 53 - 76)

Ystyried a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol drafft CYSAG 2020-21

**8 CCYSAGC** (Tudalennau 77 - 78)

Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar-lein 29 Mehefin 2022.

**9 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Gwanwyn '23 – 8 Chwefror 2023
Haf '23 – 15 Mehefin 2023
Hydref '23 – 17 Hydref 2023

**AELODAETH**

**Cynghorwyr yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Ellie Chard
Cheryl Williams
Ann Davies
Gill German
Merfyn Parry
Huw Williams
Delyth Jones
Emrys Wynne

**Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol**

Suzy Sturley
Mr. Dominic Oakes
Y Parch. B H Jones
Y Parch. Martin Evans-Jones
Jennie Downes
Collette Owen

**Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon**

Mrs C Harmsworth
Leah Crimes
Sarah Griffiths
Katie Mason

**Aelodau Cyfetholedig**

T. Ap Siôn

**COPÏAU AT:**

Bob Cynghorydd er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn trwy cyfrwng fideo, Dydd Iau, 23 Mehefin 2022 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Ellie Chard (Cadeirydd), Ann Davies a Merfyn Parry

Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol ac Euogfarnau Athronyddol Anghrefyddol

Jennie Downes (Is-Gadeirydd), Colette Owen a Brian Jones

Yn Cynrychioli Cymdeithasau'r Athrawon

Leah Crimes

**HEFYD YN BRESENNOL**

Ymgynghorydd Addysg Grefyddol (PL), Prif Reolwr Addysg (JB), Uwch Weinyddwr Pwyllgorau/ Gweinyddwr Zoom (KJ) ac Gweinyddwyr Pwyllgor (RTJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau gan Katie Mason, Sarah Griffiths, Dominic Oakes a'r Cynghorydd Cheryl Williams.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2022 ynghyd â chofnodion y Gynhadledd Maes Llafur a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2022 (wedi'u cylchredeg yn flaenorol).

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2022 ynghyd â chofnodion y Gynhadledd Maes Llafur a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2022 fel cofnod cywir.*

## 5 MABWYSIADU'R ARGYMHELLION Y CYTUNWYD ARNYNT O'R GYNHADLEDD MAES LLAFUR

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yr eitem ar Fabwysiadu'r Argymhellion y Cytunwyd arnynt o'r Gynhadledd Maes Llafur. Eglurwyd ei bod yn debygol y byddai'r eitem yn dod gerbron y cyfarfod yn yr hydref i'w drafod ac i sicrhau bod ysgolion yn defnyddio'r cwricwlwm.

Amlygodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol fod y rhagair i'r ddogfen yn anghywir ac y byddai angen ei newid. Cytunwyd ymdrin â'r mater gyda'r cadeirydd y tu allan i'r cyfarfod. Eglurodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol fod y maes llafur gyda'r gwasanaeth cyfieithu, a soniwyd y byddai angen cyhoeddi'r ddogfen ar y wefan pan fydd wedi ei chyfieithu. Gofynnodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol am farn y pwyllgor am wneud y ddogfen yn fwy apelgar cyn ei chyhoeddi, ac roedd y pwyllgor yn hapus i'r ddogfen gael ei newid i dynnu sylw'r darllenydd; ond byddent yn hoffi ei gweld cyn iddi gael ei chyhoeddi.

Trafododd y pwyllgor y pwyntiau canlynol yn fwy manwl –

- Codwyd y mater o Addysg Grefyddol ar ôl 16 oed, dywedodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y byddai myfyrwyr oedd mewn addysg ôl 16 ar hyn o bryd yn cael rhyw fath o Addysg Grefyddol, ond y byddai plant sydd ym mlwyddyn 6 yn cael dewis i barhau ag Addysg Grefyddol ar ôl 16 oed.
- Gofynnwyd am iaith Addysg Grefyddol, atebodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y byddai'r addysg ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

***PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad gan yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ar Fabwysiadu'r Argymhellion y Cytunwyd arnynt o'r Gynhadledd Maes Llafur.***

## 6 YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AR DDATBLYGIAD PROFFESIYNOL

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y wybodaeth ddiweddaraf ar ddatblygiad proffesiynol, ochr yn ochr â'r Prif Reolwr Addysg.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol wrth y pwyllgor nad oedd rhestrau chwarae Hwb Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru (cyrsiau dysg ar-lein) ar gael i'w dangos i'r pwyllgor ar hyn o bryd; fodd bynnag, dywedodd fod safon y rhestrau chwarae yn dda.

Roedd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol a'r Prif Reolwr Addysg hefyd wedi trefnu hyfforddiant Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg/Addysg Grefyddol i dros 70 o athrawon a phenaethiaid, ac roedd wedi cael croeso positif. Roedd gan yr athrawon hefyd fynediad at ganllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg/Addysg Grefyddol, a diolchodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol i Sir Ddinbych am eu cymorth gyda'r sesiynau hyfforddi i athrawon. Wrth gloi, dywedodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol bod bwriad i ddosbarthu holiadur i'r athrawon oedd wedi cael hyfforddiant i weld a oeddent yn credu ei fod yn fuddiol.

Rhoddodd Leah Crimes (cynrychiolydd athrawon) ddiweddariad i'r Ymgynghorydd Addysg Grefyddol o gyfarfod penaethiaid diweddar, gan fod rhai athrawon ar ei hôl hi gyda hyfforddiant Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg/Addysg Grefyddol. Fodd bynnag, y gobaith oedd y byddai'r rhestrau chwarae Hwb yn helpu gyda'r hyfforddiant a chyflwyno'r deunydd.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiad ar lafar gan yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol.*

**7 CCYSAGC**

Dywedodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol nad oedd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2022 ar gael i'w dosbarthu, ond bod rhan helaeth ohono wedi canolbwyntio ar restrau chwarae'r HWB.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol fod etholiad ar gyfer aelodau ar CCYSAGC, roedd tair swydd wag a phump o bobl yn ceisio lle ar y pwyllgor. Rhoddodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol gyflwyniadau byr gan bob ymgeisydd cyn i'r pwyllgor ddewis.

Cynigiodd y pwyllgor Vicky Barlow, Edward Evans a Dr Louise Brown yn aelodau gweithredol. Cytunodd pob aelod â'r cynigion.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol wrth y pwyllgor fod enwebiadau ar gyfer is-gadeirydd hefyd; fodd bynnag, dim ond dau oedd wedi rhoi eu henwau ymlaen, sef Vicky Barlow ac Edward John Evans.

Cynigiodd y pwyllgor Edward John Evans ar gyfer y swydd is-gadeirydd, a chytunodd yr holl aelodau.

**PENDERFYNWYD** cynnig Vicky Barlow, Edward John Evans a Dr Louise Brown fel aelodau gweithredol a chynnig Edward John Evans fel is-gadeirydd CCYSAGC.

**8 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Roedd cyfarfod nesaf CYSAG wedi'i drefnu ar gyfer 19 Hydref 2022.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.00am.**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| **Cyngor Sir Ddinbych**<br>**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)** | | |
|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 20 Hydref 2021 |
| Eitem ar y Rhaglen: | **5** | Manylion yr Adroddiad |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Cafodd newyddlen yr Haf Sir Ddinbych a Chonwy 2022 ei chyhoeddi a'i hanfon i bob ysgol yn ystod tymor yr haf.

*Diben yr Adroddiad*

Hysbysu'r aelodau ynghylch yr erthyglau yn y newyddlen.

*Argymhellion:*

- Derbyn y newyddlen.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag




HELO a chroeso i AGored, y cylchlythyr sy'n ategu gwaith y CYSAGau yn Siroedd Dinbych a Chonwy. Dyma'r ail rifyn. Yn y rhifyn cyntaf, eglurwyd rôl a phwrpas y CYSAG a'r angen am gylchlythyr. Gallwch weld y rhifyn cyntaf yma. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd 'Llawlyfr i Aelodau CYSAG yng Nghymru' gan Gymdeithas CYSAGau Cymru. Mae'r canllaw defnyddiol hwn yn darparu manylion hefyd am bwrpas a rôl y CYSAG lleol.

I gael gwybodaeth am Gwricwlwm i Gymru 2022, gallwch wylio'r sesiwn hyfforddi hon sy'n 35 munud o hyd ac a drefnwyd gan Awdurdod Lleol Sir Ddinbych.



## Addysg Grefyddol a'r Cwricwlwm Newydd

Cyhoeddwyd y Cwricwlwm i Gymru ar 28 Ionawr 2020. Eglurwyd y newid o Addysg Grefyddol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn y rhifyn blaenorol. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn un o bum disgyblaeth benodol sydd ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau sy'n cynnwys Daearyddiaeth, Hanes, Astudiaethau Cymdeithasol ac Astudiaethau Busnes. Addysgir Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i'r holl blant mewn ysgolion cynradd ac efallai i ddysgwyr blwyddyn 7 o fis Medi 2022.

Gall ysgolion uwchradd ohirio addysgu'r cwricwlwm newydd tan fis Medi 2023. Os bydd ysgol uwchradd yn dewis gwneud hynny, bydd yn addysgu'r cwricwlwm newydd, yn cynnwys CGM, ym mlwyddyn 7 ac ym mlwyddyn 8 ym Medi 2023. Bydd ysgolion uwchradd yn parhau i addysgu'r cwricwlwm presennol, yn cynnwys y Maes Llafur Cytunedig presennol, i ddisgyblion ym mlwyddyn 8 ym Medi 2022 a bydd y cwricwlwm cyn 2022 yn eu dilyn drwy gydol eu hamser mewn addysg uwchradd orfodol. Enw'r cwricwlwm presennol yw Cwricwlwm Cymru 2008 a gellir ei weld ar wefan Hwb (yn gywir ar adeg ysgrifennu hyn).

### Yr Hawl i Dynnu yn Ôl

Ni fydd hawl i dynnu disgybl yn ôl o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ond bydd rhieni sydd â phlant yn derbyn yr Addysg Grefyddol bresennol (e.e. Blwyddyn 8, 9, 10 ac 11 ym Medi 2022) yn parhau i fod â'r hawl i dynnu eu plentyn yn ôl o Addysg Grefyddol. Gall hyn olygu y bydd rhieni'n gallu tynnu dysgwr yn ôl ym mlwyddyn 10 ond nid ym mlwyddyn 7.

### Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Ôl-16 Orfodol

Bydd addysg CGM ôl-16 orfodol yn cael ei dileu o fis Medi 2027, er y caiff disgyblion ofyn am ddarpariaeth CGM a rhaid i'r ysgol ufuddhau i gais o'r fath. I gael rhagor o fanylion am yr hawl i dynnu yn ôl ac am CGM Ôl-16, gweler Cwricwlwm i Gymru: crynodeb o'r ddeddfwriaeth.

## Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r Maes Llafur Cytunedig .

Mae'r Cwricwlwm i Gymru newydd ar gael ar wefan Hwb. Mae'n cynnwys yr holl wybodaeth y bydd ar ysgol ei hangen i gynllunio ei chwricwlwm. Mae'n cynnwys y newidiadau mewn deddfwriaeth a gwybodaeth am yr holl elfennau gorfodol, yn cynnwys y Pedwar Diben, y Meysydd Dysgu a Phrofiad a'r Disgrifiadau Dysgu. Mae maes penodol ar gyfer y Dyniaethau. Yn y maes hwn, mae adran 5, o'r enw Cynllunio eich cwricwlwm, yn amlinellu'r cysyniadau a chyd-destunau disgyblaethol penodol ar gyfer pob un o bum pwnc y Dyniaethau.

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, fel Addysg Grefyddol, yn parhau'n bwnc sy'n cael ei benderfynu'n lleol, felly mae pob Awdurdod Lleol yn gyfrifol am gytuno ar faes llafur i'w ysgolion lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol eu hystyried wrth lunio ei Faes Llafur Cytunedig. Mae CYSAGau Conwy a Sir Ddinbych wedi mabwysiadu cynnwys y canllawiau hyn fel Maes Llafur Cytunedig. Bydd y Maes Llafur Cytunedig ar gael ar wefannau awdurdodau lleol Conwy a Sir Ddinbych, ond cynghorir ysgolion i ddilyn y canllawiau ar CGM ar wefan Hwb wrth iddynt gynllunio'r meysydd CGM yn eu cwricwlwm.

Efallai y byddwch wedi methu'r rhain:

## Agored Cymru: Archwilio Bydolygon

Mae Agored Cymru wedi datblygu 'Archwilio Bydolygon', set o gymwysterau lefel 1 a 2 sy'n hyrwyddo dealltwriaeth o fydolygon crefyddol ac anghrefyddol. Mae'r cymhwyster yn cwrdd â'r tri sgil craidd sydd wedi'u nodi yn y fframwaith enghreifftiol (y cwricwlwm presennol), ac mae'n darparu cyfleoedd i archwilio cysyniadau ar gyfer CGM drwy'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym maes dysgu a phrofiad y Dyniaethau yn y Cwricwlwm i Gymru (y cwricwlwm newydd). Nid yw wedi'i fwriadu i gymryd lle'r TGAU Astudiaethau Crefyddol bresennol. Fodd bynnag, bydd yn cwrdd â'r angen am gymhwyster cydnabyddedig hygyrch gan ganiatáu i'r ysgol gyflawni ei rhwymedigaeth statudol yng Nghyfnod Allweddol 4. Cliciwch yma i gael rhagor o fanylion.



Mae **Canolfan San Silyn** yng nghanol Wrecsam yng Ngogledd Ddwyrain Cymru ar dir Eglwys Blwyf drawiadol San Silyn. Mae'n ganolfan sy'n darparu cymorth CGM (RVE) arbenigol ac addoli ar y cyd i athrawon yn Wrecsam gan weithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol. Mae gwefan y Ganolfan yn cael ei diweddaru gyda digwyddiadau cyfredol sy'n berthnasol i CGM yng Nghymru. Mae'r adran 'Dysgu Profesiynol' yn cynnwys erthyglau newyddion, fideos hyfforddi a blogiau ysgrifenedig sy'n ymdrin â diweddariadau hanfodol am yr hyn sy'n digwydd ym myd CGM yng Nghymru, yn Lloegr ac ar draws Ewrop. Cliciwch yma i gael mynediad i'w gwefan.

---

Mae CYSAGau lleol yn cwrdd dair gwaith bob blwyddyn. Mae gwybodaeth ar gael am gyfarfodydd y CYSAG ar wefan yr Awdurdod Lleol.

Mae Sir Ddinbych yn chwilio am athrawon i ymuno â'i CYSAG.  Lleoedd sy'n wag ar hyn o bryd ar gyfer athrawon:

- Pennaeth Ysgol Gynradd
- Athro/Athrawes Dosbarth Cynradd

---

I weld y Maes Llafur Cytunedig presennol ac adnoddau ar gyfer Addysg Grefyddol a chydaddoli, ymunwch â Rhwydwaith Hwb Addysg Grefyddol Gogledd Cymru … https://hwb.gov.wales/go/d8tfh3 a/neu grwpiau Microsoft TEAMS Conwy neu Sir Ddinbych. Anfonwch e-bost i lordp2@hwbcymru.net i gael rhagor o wybodaeth.

Adnoddau :

## HwB - Datblygiad Proffesiynol CGM

Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu cyfres o fodiwlau Dysgu Proffesiynol ar CGM yn y cwricwlwm newydd. Bydd 10 rhestr chwarae ar gael yn ystod Tymor yr Hydref 2022. Bydd y pump cyntaf yn ymdrin â 'Beth sy'n Newydd' ar gyfer uwch arweinwyr ac athrawon mewn ystod o leoliadau ysgol a disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi ddechrau mis Medi. Bydd rhestri chwarae ar y sgiliau traws-gwricwlaidd, dilyniant, asesu ac addysgeg yn dilyn yn ddiweddarach yn y tymor.




## 16+ Herio Materion Crefyddol

Mae Herio Materion Crefyddol yn gyfnodolyn ar gyfer myfyrwyr ac athrawon Astudiaethau Crefyddol UG a Safon Uwch. Mae hefyd yn adnodd defnyddiol i unrhyw un sydd eisiau datblygu neu loywi eu gwybodaeth bynciol. Mae dros 65 o erthyglau mynediad agored mewn cyfnodolion wedi'u cyhoeddi yn y cyfnodolyn hyd yn hyn gan gynnwys erthyglau a ysgrifennwyd gan ysgolheigion ac ymarferwyr blaenllaw. Mae'r erthyglau'n gysylltiedig â manylebau Safon Uwch Astudiaethau Crefyddol. Mae'r erthyglau'n rhyngweithiol drwy ddefnyddio 'pwyntiau trafod' a dolenni byw i wefannau allanol perthnasol. Mae pob rhifyn ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae Canolfan San Silyn wedi ariannu a rheoli'r fersiwn Gymraeg o rifyn 14 ymlaen. Cliciwch yma i weld Herio Materion Crefyddol o wefan San Silyn.

---

Lleoedd sy'n wag ar hyn o bryd ar gyfer athrawon:

- Athro/Athrawes Dosbarth Cynradd
- Athro/Athrawes Ysgol Arbennig

---

Please contact *LordP2@hwbcymru.net* if you are interested or want more information

**Cylchlythyrau i ddod:** Hoffem gynnwys erthyglau am arferion da ar gyfer Addysg Grefyddol a Chydaddoli ledled Gogledd Cymru. Os hoffech gyfrannu i Reach, cysylltwch â LordP2@hwbcymru.net



<table>
<tr><td colspan="3">Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol<br>(CYSAG)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Cyfarfod:</td><td>20 Hydref 2021</td></tr>
<tr><td>Eitem ar y Rhaglen:</td><td>6</td><td>Manylion yr Adroddiad</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Cefndir yr Adroddiad:</u><br><br>Mae’r Cwricwlwm i Gymru yn statudol ar gyfer ysgolion cynradd a rhai ysgolion uwchradd (ar gyfer blwyddyn 7) o fis Medi 2022. Cytunwyd ar gynnwys y maes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ystod haf 2022, ac mae’r fersiwn terfynol o’r maes llafur wedi’i gwblhau a’i anfon at ysgolion. Mae canllawiau ategol hefyd wedi’u cyhoeddi a’u hanfon at ysgolion.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Diben yr Adroddiad</u><br><br>Edrych ar fersiynau terfynol y maes llafur cytunedig a’r canllawiau ategol.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Argymhellion:</u><br><br>▪ Derbyn y cyflwyniad<br>▪ Ystyried sut i hysbysu ysgolion ynghylch y maes llafur cytunedig newydd a’r canllawiau ategol.</td></tr>
</table>

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council



# Maes Llafur Cytunedig

## ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

**(yn seiliedig ar y Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg)**

# 2022-27



# Maes Llafur Cytunedig

# ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

**(yn seiliedig ar y Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg)**

## Cynnwys


| Adran | | .........Tudalen |
|---|---|---|
| | Rhagair | .........2 |
| 1. | Cyflwyniad | .........3 |
| 2. | Pwrpas y Canllawiau CGM hyn | .........3 |
| 3. | Cynulleidfa | .........3 |
| 4. | Maes Llafur Cytunedig | .........3-4 |
| 5. | CGM yn y Cwricwlwm i Gymru | .........4 |
| 6. | Datblygiad Ysbrydol | .........4-5 |
| 7. | Dylunio eich cwricwlwm ar gyfer CGM | .........6 |
| 8. | CGM a'r pedwar diben | .........6-7 |
| 9. | CGM a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig | .........7 |
| 10. | Cysyniadau CGM | .........7-8 |
| 11. | Y lens CGM | .........8 |
| 12. | Cynnydd dysgwyr a siwrneiau dysgu o fewn CGM | .........8-15 |
| • | Taith ddysgu enghreifftiol 1: chwilio am ystyr a phwrpas | .........9 |
| • | Taith ddysgu enghreifftiol 2: y byd naturiol a phethau byw | .........10 |
| • | Taith ddysgu enghreifftiol 3: gwerthoedd a moeseg | .........10-11 |
| • | Taith ddysgu enghreifftiol 4: hunaniaeth a pherthyn | .........11-12 |
| • | Taith ddysgu enghreifftiol 5: awdurdod a dylanwad | .........12-13 |
| • | Taith ddysgu enghreifftiol 6: cydberthnasau a chyfrifoldeb | .........13-14 |
| • | Taith ddysgu enghreifftiol 7: taith bywyd | .........14-15 |
| 13. | Cyfoethogi profiad dysgwyr mewn CGM | .........15 |
| 14. | Cysylltiadau allweddol a meysydd eraill | .........15 |
| 15. | Pwyntiau i ysgolion a lleoliadau eu hystyried | .........16 |
| 16. | Sicrhau cynhwysiant mewn CGM | .........16-17 |
| 17. | Addysg mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir | .........17 |
| 18. | Addysg heblaw yn yr ysgol | .........18 |
| | Atodiad A: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ôl-16 | .........19 |


Delweddau ar y clawr blaen a ddefnyddir ar drwydded o adobe stock images: #277898455 and #103315721



Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Rhagair

Gyda balchder mawr, gallaf gyflwyno Maes Llafur Cytunedig Sir Ddinbych ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg 2022-2027. Bydd y Maes Llafur Cytunedig yn berthnasol i ysgolion cynradd ac uwchradd wrth iddynt ddilyn cyflwyniad Cwricwlwm newydd Cymru. Bydd y Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cyd-fynd â Maes Llafur Cytunedig Sir Ddinbych ar gyfer Addysg Grefyddol, fydd yn berthnasol i rai grwpiau blynyddoedd yn yr ysgol uwchradd hyd at 2027.

Mae newid yr enw o Addysg Grefyddol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ein hatgoffa bod cwmpas y pwnc wedi ehangu i gynnwys astudio credoau athronyddol heb fod yn grefyddol. Pwrpas cynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym maes dysgu a phrofiadau Dyniaethau yw hyrwyddo sut mae'r pwnc yn ein cysylltu â'r cwestiwn mwyaf oll, sut beth yw bod yn fodau dynol?

Yn debyg i Faes Llafur Cytunedig 2008, ein gobaith diffuant yw y byddwch yn gweld ei fod yn rhoi rhyddid i chi ddewis y wybodaeth, sgiliau a phrofiadau sy'n briodol i ymgysylltu ac ysbrydoli eich dysgwyr wrth iddynt geisio deall y cysyniadau unigryw o ran credoau crefyddol a heb fod yn grefyddol a sut maent yn effeithio ar fywyd pob un ohonom, yn unigol a gyda'n gilydd.

Cofion cynnes

Ellie Chard
(Cadeirydd Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Sir Ddinbych, Haf 2022)

## 1. Cyflwyniad

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn un o ofynion statudol y Cwricwlwm i Gymru ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae Crefydd Gwerthodd a Moeseg yn rhan o Faes y Dyniaethau. Mae'r Maes hwn yn cynnwys daearyddiaeth; hanes; crefydd, gwerthoedd a moeseg ac astudiaethau busnes. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o'r un themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy, ac yn cynnwys eu gwybodaeth a'u sgiliau gwahanol eu hunain hefyd.

Nid oes gan rieni hawl i ofyn am gael tynnu eu plentyn o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Cwricwlwm i Gymru.

## 2. Diben y canllawiau hyn ar Grefydd Gwerthoedd a Moeseg

Mae’r Maes Llafur Cytunedig hwn yn seiliedig ar Ganllawiau CGM Llywodraeth Cymru.

Cafodd y canllawiau hyn eu hysgrifennu gan ymarferwyr ac arbenigwyr addysg grefyddol er mwyn rhoi cymorth ychwanegol gydag addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Maes Dyniaethau. Mae’r canllawiau’n pwysleisio bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan annatod o’r Maes hwn ac yn amlinellu cyfraniad unigryw a phenodol y pwnc i’r Cwricwlwm i Gymru.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am statws cyfreithiol y canllawiau hyn yn crynodeb o’r ddeddfwriaeth yn fframwaith Cwricwlwm i Gymru.

Mae canllawiau ychwanegol mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg i ysgolion a lleoliadau gwirfoddol a gynorthwyir wedi cael eu cynhyrchu gan yr Eglwys yng Nghymru a Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru.

## 3. Cynulleidfa

Mae'r Maes Llafur Cytunedig ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym Maes y Dyniaethau wedi’i ysgrifennu i fod yn hygyrch i bawb sy'n gyfrifol am gynllunio cwricwlwm. Y rhai y mae’n rhaid iddynt ystyried y maes llafur wrth ddylunio cwricwlwm yw:

- pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir

Gall y maes llafur hefyd fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr, consortia rhanbarthol, cyrff dyfarnu, Estyn, undebau athrawon, sefydliadau crefyddol, sefydliadau anghrefyddol, rhieni a gofalwyr a chyrff eraill yng Nghymru sydd â diddordeb mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Nid oes rhaid i'r cyrff hyn ystyried y maes llafur ond gall fod yn ddefnyddiol ac yn addysgiadol iddyn nhw gyfeirio atyn nhw er mwyn deall cynnwys cwricwlwm lleoliad penodol yn well.

## 4. Maes Llafur Cytunedig

Gan mai pwnc y penderfynir arno'n lleol yw CGM, y maes llafur cytunedig sy'n pennu'r hyn y dylid ei addysgu yn y pwnc ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer yr ysgolion hynny sy'n addysgu'r maes llafur cytunedig.

Mae’r canllawiau CGM hefyd felly wedi’u bwriadu ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am baratoi maes llafur cytunedig, y mae'n rhaid iddyn nhw ystyried y canllawiau hyn, gan gynnwys:

- yr awdurdod lleol sydd â swyddogaeth o ran mabwysiadu'r maes llafur cytunedig a luniwyd gan y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig

- y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig
- y corff a sefydir gan Weinidogion Cymru i baratoi maes llafur cytunedig os na lwyddodd y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig i wneud hynny

Mae dyletswydd gyfreithiol ar bob awdurdod lleol i gynnal Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig er mwyn adolygu'r maes llafur ac argymell maes llafur priodol i'w fabwysiadu gan yr awdurdod lleol. Dylid adolygu’r maes llafur cytunedig pob awdurdod lleol bob pum mlynedd.

Unwaith y bydd maes llafur cytunedig wedi’i fabwysiadu, bydd yn ofynnol i bob ysgol a lleoliad a gynhelir ystyried y maes llafur cytunedig hwnnw, gan gynnwys ysgolion sydd â chymeriad crefyddol, wrth gynllunio elfen maes llafur cytunedig eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Os bydd awdurdod lleol yn dymuno mabwysiadu neu addasu’r canllawiau CGM fel eu maes llafur cytunedig, caiff wneud hynny.

## 5. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru

Gall Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Cwricwlwm i Gymru wneud cyfraniad unigryw tuag at gyflawni'r **pedwar diben** i bob dysgwr. Fel y cyfryw, mae'r maes llafur hwn yn helpu ysgolion a lleoliadau i ddatblygu darpariaeth ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n paratoi dysgwyr yng Nghymru, fel dinasyddion cyfrifol a gwybodus, ar gyfer bywyd a gwaith mewn byd amrywiol sy'n newid yn gyflym.

Lleolir Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Maes y Dyniaethau ac mae'n ymgorffori amrywiaeth o ddulliau disgyblaethol y gall dysgwyr eu defnyddio i ymgysylltu’n feirniadol ag amrywiaeth eang o gysyniadau crefyddol ac anghrefyddol. Ymhlith y dulliau disgyblaethol sy'n berthnasol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg mae astudiaethau crefyddol, athroniaeth, diwinyddiaeth, cymdeithaseg, seicoleg ac anthropoleg. Hefyd, ceir cydberthnasau cadarn rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r disgyblaethau eraill Maes y Dyniaethau yn ogystal â Meysydd eraill.

Mae cysyniadau'n bwysig mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg am eu bod yn syniadau canolog sy'n helpu dysgwyr i ddeall a dehongli profiadau dynol, y byd naturiol a'u lle eu hunain ynddo. Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy amrywiaeth o is-lensys sy'n cyfuno i ffurfio lens ddisgyblaethol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae'r cysyniadau a'r is-lensys hyn wedi'u nodi yn y maes llafur cytunedig hwn.

O fewn Cwricwlwm i Gymru, mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol o ran cynnwys ac addysgeg; nid oes a wnelo'r pwnc â gwneud dysgwyr yn ‘grefyddol’ neu'n ‘anghrefyddol’. Daw'r ymadrodd ‘gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol’ o gyfraith achosion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn sicrhau ei bod yn rhaid i bob dysgwr gael cynnig cyfleoedd drwy Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg i ymwneud â gwahanol grefyddau a safbwyntiau athronyddol anghrefyddol yn eu hardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal â'r byd ehangach.

## 6. Datblygiad Ysbrydol

Un o nodweddion **pedwar diben** y cwricwlwm yw y caiff dysgwyr eu cefnogi i ddatblygu'n unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. Mae gan y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg lawer o gyfraniadau gwerthfawr ac unigryw i'w gwneud. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig wedi'u nodi yng Nghod yr Hyn sy'n Bwysig ac maen nhw’n cynnwys y cysyniadau allweddol ar gyfer pob Maes.

Yng nghyd-destun Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, mae datblygiad ysbrydol yn ymwneud â'n gallu naturiol i chwilio am yr hyn sy'n bwysig mewn bywyd, ei fynegi a'i ddeall, ac i gwestiynu pwy ydym ni a pham rydym ni yma. Gall datblygiad ysbrydol gynnwys crefydd neu beidio. Drwy brofi cydberthnasau a myfyrio arnyn nhw, gall datblygiad ysbrydol ddod i'r amlwg yn y canlynol: hunanymwybyddiaeth mewn perthynas â phobl eraill; cysylltiadau â'r byd ehangach a'r byd naturiol (ac, i rai pobl, â phŵer uwch neu realiti eithaf); creadigrwydd a mynd y tu hwnt i'r cyffredin; archwilio cwestiynau eithaf ac ystyried ystyr a phwrpas.

**a) Hunanymwybyddiaeth mewn perthynas â phobl eraill**

Gall dysgwyr:

- feithrin ymdeimlad o'u natur unigryw a'u gwerth
- myfyrio ar eu credoau, eu gwerthoedd a'u gweithredoedd eu hunain, gan fynegi a chyfiawnhau eu teimladau a'u safbwyntiau eu hunain
- datblygu dyheadau a dysgu dygymod â siom
- dangos empathi ac ystyriaeth at eraill
- datblygu trugaredd a helpu eraill
- datblygu llais a gwrando ar leisiau pobl eraill a'u parchu
- meithrin cydberthnasau da
- siarad amdanyn nhw eu hunain mewn perthynas â phobl eraill, y byd a/neu bŵer uwch neu realiti eithaf
- meithrin ymwybyddiaeth o gredoau, dysgeidiaeth ac arferion pobl eraill, a pharch tuag atyn nhw, yn ogystal â'r gallu i fynegi eu rhai nhw eu hunain
- archwilio effaith credoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol ar fywydau unigolion, y gymuned leol a chymdeithas ehangach

**b) Cysylltiadau â'r byd ehangach a'r byd naturiol**

Gall dysgwyr:

- ddatblygu gwerthfawrogiad berthyn i'w hardal leol, i Gymru ac i'r byd ehangach
- profi'r byd naturiol, gwerthfawrogi'r amgylchedd a gweithio tuag at ddyfodol cynaliadwy i bawb
- profi cyfoeth yr ysgogiadau o'u cwmpas drwy ddefnyddio'r synhwyrau
- profi bod yn bresennol yn y foment
- datblygu ymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas, a'u lle ynddo
- gwneud synnwyr o'u profiad o'r byd naturiol a chydberthnasoedd dynol

**c) Creadigrwydd a mynd y tu hwnt i'r cyffredin**

Gall dysgwyr:

- feithrin creadigrwydd a defnyddio eu dychymyg
- profi rhyfeddod neu gael eu syfrdanu gan bethau
- meithrin chwilfrydedd a datblygu mewnwelediad

**d) Archwilio cwestiynau eithaf ac ystyried ystyr a phwrpas**

Gall dysgwyr:

- ofyn, ystyried a myfyrio ar y cwestiynau eithaf (y cwestiynau 'mawr' ynghylch bywyd)
- darganfod ystyr a phwrpas yn eu bywydau eu hunain
- profi'r hyn sydd y tu hwnt i'r cyffredin

Gall datblygiad ysbrydol hefyd ddigwydd wrth i ddysgwyr ymgysylltu â'u cynefin, a gall ddigwydd mewn bywyd pob dydd yn eu cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang.

## 7. Cynllunio eich cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Bwriedir i'r adran hon gefnogi pob un o'r rhai sy'n gyfrifol am gynllunio addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fandadol o fewn y Maes hwn.

Wrth gynllunio a datblygu'r cwricwlwm, rhaid cynnwys cyfleoedd i ddysgu ac ystyried **themâu trawsgwricwlaidd** o fewn y Cwricwlwm i Gymru lle bo hynny'n briodol. Y themâu trawsgwricwlaidd hyn yw: addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith, hawliau dynol, amrywiaeth, cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ac addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae hefyd yn bwysig ystyried **sgiliau trawsgwricwlaidd** llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn ogystal â'r **sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben** (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu) wrth gynllunio'r cwricwlwm.

Wrth wireddu eu cwricwlwm, bydd angen i ysgolion a lleoliadau benderfynu ar y ffordd orau o gynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Maes y Dyniaethau. Er enghraifft, gellir cynllunio'r cwricwlwm mewn ffordd integredig, amlddisgyblaethol, rhyngddisgyblaethol neu ddisgyblaethol. Dylid gwerthuso'r dull o gynllunio'r cwricwlwm yn rheolaidd yn unol â chanllawiau Fframwaith Cwricwlwm i Gymru.

## 8. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r pedwar diben

Wrth wraidd y Cwricwlwm i Gymru mae'r **pedwar diben**, sy'n allweddol wrth lywio'r broses o gynllunio'r cwricwlwm ac, fel y cyfryw, dylid canolbwyntio arnyn nhw ym mhob agwedd ar ddatblygu'r cwricwlwm. Mae'r pedwar diben yn nodi'r dyheadau ar gyfer pob dysgwr.

Erbyn iddyn nhw gyrraedd 16 oed, dylen nhw fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy’n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a’r byd
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Ym Maes y Dyniaethau, mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cyfrannu at gyflawni pedwar diben y cwricwlwm.

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mandadol yn gwneud cyfraniad pwysig ac unigryw at gyflawni'r pedwar diben drwy roi cyfleoedd i ddysgwyr wneud y canlynol:

- archwilio ac ymwneud â chwestiynau eithaf ac athronyddol ynghylch ystyr, arwyddocâd a phwrpas bywyd, ac am natur meddwl bodau dynol a'r bydysawd, a'r cysylltiadau rhyngddyn nhw
- ymgymryd ag ymholiadau ac ymwneud â ffynonellau doethineb ac athroniaethau sy'n eu hannog i archwilio heriau, cyfleoedd ac ymatebion bodau dynol yng nghyd-destun eu cynefin, yn lleol, yng Nghymru a'r byd ehangach, yn ogystal â'u helpu i werthuso eu safbwyntiau eu hunain a rhai pobl eraill
- datblygu a mynegi eu safbwyntiau gwybodus eu hunain, a fydd yn eu paratoi ar gyfer dysgu gydol oes yn y byd plwraliaethol ac amrywiol hwn
- defnyddio eu gwybodaeth am gredoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol sefydliadol a phersonol, a'u dealltwriaeth ohonyn nhw, i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain ac am y ffordd y gallen nhw wneud penderfyniadau cymdeithasol a phersonol pwysig
- archwilio ym mha ffyrdd y mae crefydd ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol wedi dylanwadu ar brofiadau dynol drwy gydol hanes, fel y gallan nhw wneud synnwyr o'u lle yn

y byd, dychmygu dyfodol posibl a chreu atebion cyfrifol sy'n ystyried anghenion a hawliau amrywiol pawb
- gwerthuso a defnyddio tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol er mwyn mynd i'r afael â materion egwyddorol a moesol hanesyddol a chyfoes sy'n herio eu gwybodaeth a'u gwerthoedd. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o grefydd a chred, diwylliant, cymuned, eu cynefin, Cymru a'r byd ehangach, nawr ac yn y gorffennol. Gall hyn helpu i feithrin ymdeimlad o le ac o berthyn
- ymateb yn sensitif i grefydd ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol, ac archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach, a'r ffordd y gallai'r rhain effeithio ar eu gweithredoedd a'u dewisiadau
- datblygu gwerthoedd pendant a sefydlu eu credoau egwyddorol a'u hysbrydolrwydd drwy archwilio crefydd ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol ynghylch amrywiaeth o faterion. Gall hyn eu galluogi i ffurfio cydberthnasau cadarnhaol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a chyd-barch
- trafod eu safbwyntiau eu hunain a safbwyntiau pobl eraill ar amrywiaeth o faterion, a myfyrio arnyn nhw. Gall hyn eu helpu i feithrin eu lles meddyliol, emosiynol ac ysbrydol drwy ddatblygu hyder, gwydnwch ac empathi.

## 9. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Cyn y gellir dechrau gwneud unrhyw waith cynllunio manwl, mae'n hanfodol i ymarferwyr ac arweinwyr ysgolion ystyried y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y Dyniaethau, sy'n cyfrannu at sicrhau bod dysgwyr yn gwireddu pedwar diben y cwricwlwm. Dylai ymarferwyr ac arweinwyr hefyd ystyried y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig mewn Meysydd eraill lle y gall Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gyfrannu at y dysgu.

## 10. Cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Mae'r **datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn** yn galluogi dysgwyr i archwilio amrywiaeth eang o gysyniadau crefyddol ac anghrefyddol, ac ymgysylltu'n feirniadol â nhw. Dylid ystyried y cysyniadau hyn yn ofalus a dylen nhw fod yn sail ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm.

Wrth ystyried cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn eu cwricwlwm, dylai ysgolion a lleoliadau wneud y canlynol:
- datblygu dealltwriaeth o'r ddisgyblaeth a'i gwerth
- darparu cyd-destunau cyfoethog i ddysgwyr fod yn chwilfrydig, archwilio cwestiynau eithaf a cheisio deall y cyflwr dynol, yn ogystal â chynnig cyfleoedd i ddysgwyr fyfyrio, a phrofi rhyfeddod mewn amrywiaeth o gyd-destunau ystyrlon bywyd go iawn
- datblygu cyd-destunau cyfoethog ar gyfer ymchwilio i gysyniadau crefydd, crefydd bob-dydd, bydolygon, seciwlaredd, ysbrydolrwydd, safiad mewn bywyd, hunaniaeth a diwylliant er mwyn helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth gyflawn o gredoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol
- darparu cyd-destunau cyfoethog ar gyfer ystyried cysyniadau cred, ffydd, gwirionedd, pwrpas, ystyr, gwybodaeth, ffynonellau awdurdod, yr hunan, tarddiad, bywyd, marwolaeth a realiti eithaf. Gall hyn alluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o gredoau personol a sefydliadol ynghylch natur bywyd a'r byd o'u cwmpas
- datblygu cyd-destunau cyfoethog ar gyfer archwilio cysyniadau hunaniaeth, perthyn, cydberthnasau, y gymuned, cynefin, amrywiaeth, plwraliaeth a chydgysylltiad. Gall hyn alluogi dysgwyr i feithrin ymdeimlad o'r hunan ac ysbrydolrwydd
- archwilio cysyniadau cydraddoldeb, cynaliadwyedd, goddefgarwch, rhyddid, rhagfarn, gwahaniaethu, eithafiaeth, da a drwg. Gall hyn helpu dysgwyr i ddeall yr heriau a'r cyfleoedd a wynebir gan gymdeithas

- adlewyrchu cysyniadau a chyd-destunau crefyddoldeb, arferion, defod, traddodiad, addoli, cysegredigrwydd, symbolaeth a dathlu er mwyn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o grefydd a chred
- darparu cyd-destunau cyfoethog ar gyfer archwilio cysyniadau moeseg, moesoldeb, cyfiawnder, cyfrifoldebau, awdurdod, dynoliaeth, hawliau, gwerthoedd a gweithredu cymdeithasol.

## 11. Lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Gall lens disgyblaethol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg helpu ysgolion a lleoliadau i ystyried cynnwys perthnasol wrth gynllunio eu cwricwlwm. Yn y maes llafur hwn, mae lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi'i rhannu'n nifer o is-lensys a ddefnyddir i edrych ar gysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'u harchwilio. Mae'r is-lensys yn gydgysylltiedig ac ni fwriedir iddyn nhw fod yn unedau nac yn destunau. Maen nhw’n seiliedig ar gorff cydnabyddedig o wybodaeth ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yng Nghymru ac yn helpu i sicrhau ehangder a dyfnder digonol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym Maes y Dyniaethau. Mae'r is-lensys yn cyd-fynd â'r holl ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac maen nhw hefyd yn berthnasol i Feysydd eraill ac i'r gwaith o wireddu'r pedwar diben. Maen nhw’n helpu ysgolion a lleoliadau i adnabod agweddau arwyddocaol ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac yn tynnu sylw at gyfleoedd i addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig er mwyn helpu i ddatblygu’r cwricwlwm.

Ymhlith yr is-lensys o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mae:

- Chwilio am ystyr a phwrpas

Sut mae pobl yn ymateb i gwestiynau dyfnach bywyd er mwyn deall y cyflwr dynol.

- Y byd naturiol a phethau byw

Sut a pham mae pobl yn dangos gofal a chyfrifoldeb am y byd ac yn cael eu rhyfeddu gan fyd natur.

- Hunaniaeth a pherthyn

Beth sy'n ein gwneud ni yn ni, fel pobl, cymunedau a dinasyddion yn byw mewn byd amrywiol.

- Awdurdod a dylanwad

Sut a pham mae gwahanol fathau o awdurdod yn dylanwadu ar fywydau pobl.

- Cydberthnasau a chyfrifoldeb

Sut mae pobl yn byw gyda'i gilydd, a pham mae'n bwysig meithrin cydberthnasau iach.

- Gwerthoedd a moeseg

Sut a pham mae pobl yn gwneud dewisiadau moesol a sut mae hyn yn dylanwadu ar eu gweithredoedd.

- Taith bywyd

Beth mae pobl yn ei brofi fel rhan o daith bywyd, a'r ffordd y caiff y profiadau eu cydnabod.

## 12. Cynnydd dysgwyr a theithiau dysgu o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

**Mae cynnydd dysgwyr** yn sbardun pwysig ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm. Adlewyrchir hyn yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac yn y **disgrifiadau dysgu ar gyfer Maes y Dyniaethau**, sy'n helpu i roi arweiniad manylach i ymarferwyr.

Er mwyn datblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd o 3 i 16 oed mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Maes hwn, rhoddir enghraifft o 'daith ddysgu' ar gyfer pob is-lens. Mae'r teithiau dysgu hyn yn dangos sut y gall dysgwr feithrin dealltwriaeth o gysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r is-lensys cydgysylltiedig amrywiol, a gallan nhw fod yn ddefnyddiol wrth gynllunio cwricwlwm, ochr yn ochr â'r disgrifiadau dysgu ar gyfer Maes y Dyniaethau. Maen nhw wedi ystyried y disgrifiadau dysgu ac maen nhw'n annog ysgolion a lleoliadau i fod yn greadigol ac yn hyderus wrth gynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth gynllunio eu cwricwlwm. Nid yw'r teithiau dysgu yn cynnig cyfres amgen o ddisgrifiadau dysgu, ac nid ydynt ychwaith yn cynnig pwyntiau cyfeirio na meini prawf penodol ar gyfer cyflymder cynnydd, ac ni ddylid eu defnyddio felly. Adlewyrchir pob un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn ar draws y teithiau dysgu.

## Taith ddysgu enghreifftiol 1: chwilio am ystyr a phwrpas

Mae'r daith ddysgu hon yn seiliedig ar ddau ddatganiad o'r hyn sy'n bwysig yn bennaf: 'Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd' ac 'Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl'. Gellir archwilio cysylltiadau gyda datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig, ynghyd â Meysydd eraill drwy'r is-lens hon hefyd.

Bydd y disgrifiadau dysgu'n helpu i roi arweiniad manylach ar gynnydd.

Mae a wnelo'r daith hon â 'chwestiynau dyfnach bywyd'. Ar y camau dysgu cynnar, bydd dysgwyr yn dechrau gofyn cwestiynau dyfnach amdanyn nhw eu hunain ac eraill ac am y byd naturiol a'r pethau byw o'u cwmpas (er enghraifft, 'Pwy ydw i?' 'Pam mae pethau'n marw?'), yn ogystal â gwrando ar farn pobl eraill. Ymhellach ar hyd y daith hon, byddan nhw'n casglu ac yn trafod mewnwelediad crefyddol ac anghrefyddol ac yn ystyried eu barn, eu safbwyntiau a'u dehongliadau eu hunain, a rhai pobl eraill, mewn ffordd fwyfwy soffistigedig. Yn ddiweddarach, gellir rhannu, trafod a gwerthuso materion yn ymwneud â gwirionedd, ystyr, pwrpas a gwerth wrth i ddysgwyr ystyried amrywiaeth o gwestiynau heriol am y materion hyn yn ddyfnach (er enghraifft bodolaeth da a drwg, natur dioddefaint, defnyddio cyfoeth). Gallan nhw gydnabod bod ymatebion i'r fath gwestiynau yn gymhleth ac, yn aml, nad ydyn nhw'n gyflawn nac yn bendant.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â 'dylanwad, parhad a newid'. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau gwybod a mynegi'r hyn y maen nhw'n ei hoffi a'r hyn nad ydyn nhw'n ei hoffi, yr hyn sy'n eu gwneud yn hapus ac yn drist, a'u gobeithion a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol, yn ogystal ag ymateb i syniadau pobl eraill. Ymhellach ar hyd eu taith, gallan nhw adnabod a thrafod mewnwelediad crefyddol ac anghrefyddol mewn perthynas â theimladau ac anghenion bodau dynol, gan gynnwys yr hyn sy'n dylanwadu arnyn nhw a'r ffyrdd y cânt eu mynegi yn eu bywydau eu hunain ac ym mywydau pobl eraill. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ddod i adnabod parhad a newid mewn ymatebion i gwestiynau am ystyr a phwrpas mewn bywyd, yn eu bywydau eu hunain ac mewn cymdeithas a diwylliant, ar adegau gwahanol ac mewn lleoedd gwahanol. Maen nhw'n gwerthuso gwerthoedd a syniadau cyfoes perthnasol mewn perthynas â hunan-werth o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd ag 'ymdrechion a chyfraniadau bodau dynol'. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o'r bobl a'r 'syniadau mawr' sydd wedi llywio eu hardaloedd lleol a'u bywydau pob dydd. Ymhellach ar hyd eu taith, byddan nhw'n dychmygu ac yn trafod yr hyn y gallan nhw ei gyfrannu nawr ac yn y dyfodol, ac yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r gydberthynas rhwng dyhead ac arferion, gan ystyried amrywiaeth o gyfraniadau o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol ar yr un pryd. Yn ddiweddarach, wrth i ddealltwriaeth dysgwyr ddatblygu, gallan nhw wneud cysylltiadau cynyddol gymhleth rhwng agweddau ar iechyd a lles, anghenion a gofynion y byd sydd ohoni, a'u hymdrechion eu hunain i chwilio am ystyr a phwrpas.

## Taith ddysgu enghreifftiol 2: y byd naturiol a phethau byw

Mae'r daith ddysgu hon yn seiliedig ar ddau ddatganiad o'r hyn sy'n bwysig yn bennaf: ‘Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi’i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol’ ac ‘Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i’r afael â’r heriau a’r cyfleoedd sy’n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol’. Gellir archwilio cysylltiadau gyda datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig, ynghyd â Meysydd eraill, drwy'r is-lens hon hefyd.

Bydd y disgrifiadau dysgu'n helpu i roi arweiniad manylach ar gynnydd.

Mae a wnelo'r daith hon â ‘gofal, ystyriaeth a pharch’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dangos gofal a pharch tuag at y byd naturiol a'r pethau byw o'u cwmpas. Ymhellach ar hyd eu taith, gallan nhw adnabod sut a pham y byddan nhw ac eraill yn dangos gofal, pryder a pharch, yn ogystal ag ystyried safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Yn ddiweddarach, ac yn fwyfwy soffistigedig, gall dysgwyr ddechrau codi cwestiynau egwyddorol mewn perthynas â gweithgarwch dynol, natur a lle, a'u hystyried yn feirniadol, gan fynd i'r afael ag ymatebion crefyddol, anghrefyddol a'u hymatebion eu hunain.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â ‘rhyfeddod’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau cael eu rhyfeddu gan fyd natur, a bydd hyn yn datblygu wrth iddyn nhw archwilio'r byd o'u cwmpas, gan arsylwi a gofyn cwestiynau. Ymhellach ar hyd eu taith, bydd ymdeimlad o gymhlethdod bywyd a'i gydgysylltiad yn tyfu, yn ogystal ag ymdeimlad o gyfrifoldeb gweithredol. Yn ddiweddarach, bydd profiadau o ryfeddod yn dod yn fwy cynnil drwy ymgysylltu'n ddyfnach ac yn ehangach â lleoedd a phobl eraill, yn ogystal â'r byd naturiol a phethau byw.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â ‘chyfrifoldeb a gweithredu’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o bethau byw y tu hwnt iddyn nhw eu hunain, a'r ffaith y gall eu gweithredoedd effeithio arnyn nhw. Ymhellach ar hyd eu taith, gallan nhw ddod i wybod ‘straeon’ crefyddol ac anghrefyddol am leoedd lleol, y byd naturiol a phethau byw, a sut maen nhw’n gysylltiedig â'u hunain ac eraill. Drwy straeon crefyddol ac anghrefyddol (er enghraifft, am ddechreuadau’r byd), gall dysgwyr ddysgu am athroniaethau gwahanol sy'n bwysig i'n dealltwriaeth o'r byd a lle bodau dynol ynddo. Yn ddiweddarach, ac yn fwyfwy soffistigedig, byddan nhw’n meithrin y gallu i adnabod sut y caiff gwerthoedd a chredoau eu hadlewyrchu mewn gweithredoedd o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol, a'r berthynas rhyngddyn nhw a'u profiadau eu hunain.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â ‘lle a gofod’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau sylweddoli eu bod wedi'u lleoli mewn lle a gofod, a bydd i hyn ystyr iddyn nhw. Ymhellach ar hyd eu taith, byddan nhw’n adnabod bod lleoedd a gofodau o'u cwmpas yn golygu pethau gwahanol i wahanol bobl, yn ogystal ag ystyried lleoedd o arwyddocâd arbennig am resymau crefyddol ac anghrefyddol. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ddechrau adnabod ac esbonio lleoedd sy'n destun dadlau (crefyddol ac anghrefyddol), gan werthfawrogi materion sensitif mewn perthynas â lle. Gallan nhw ddeall cymhlethdod dadleuon a dylanwadau megis hunaniaeth, awdurdod, gwerthoedd, moeseg ac ystyriaethau ynghylch ystyr a phwrpas mewn bywyd.

## Taith ddysgu enghreifftiol 3: gwerthoedd a moeseg

Mae'r daith ddysgu hon yn seiliedig ar ddau ddatganiad o'r hyn sy'n bwysig yn bennaf: ‘Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a’u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd’ ac ‘Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i’r afael â’r heriau a’r cyfleoedd sy’n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol’. Gellir archwilio cysylltiadau gyda datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig, ynghyd â Meysydd eraill, drwy'r is-lens hon hefyd.

Bydd y disgrifiadau dysgu'n helpu i roi arweiniad manylach ar gynnydd.

Mae a wnelo'r daith hon â'r ‘hyn sy'n werthfawr i bobl’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau adnabod beth sydd o werth iddyn nhw (er enghraifft, tegwch, ymddiriedaeth, cariad, bywyd a charedigrwydd) a byddan nhw’n gwrando ar farn pobl eraill. Gallan nhw gydnabod yr angen i barchu eraill a gallan nhw ddangos sut beth yw hyn yn eu bywydau pob dydd. Ymhellach ar hyd eu taith, bydd dysgwyr yn dod yn ymwybodol o wahanol ddehongliadau a ffyrdd o fynegi gwerthoedd cyffredin, gan werthfawrogi amrywiaeth o ddylanwadau crefyddol ac anghrefyddol. Byddan nhw’n dysgu sut mae rhai gwerthoedd a hawliau wedi newid dros amser. Wrth i'w gwybodaeth a'u profiad dyfu, gall dysgwyr ddechrau trafod amrywiaeth o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol o fewn achosion o anghydraddoldeb ac anghyfiawnder, yn ogystal â'r heriau sy'n gysylltiedig ag adnabod a diogelu hawliau dynol. Yn ddiweddarach, byddan nhw’n meithrin y gallu i ffurfio, amddiffyn ac ailystyried eu safbwyntiau egwyddorol ar faterion o bwys crefyddol ac anghrefyddol (er enghraifft, sancteiddrwydd bywyd, rhyddid i lefaru, lles anifeiliaid, a rhyfel).

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â ‘chredoau, gweithredoedd a chanlyniadau’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dangos dealltwriaeth o'r hyn sy'n dda ac yn ddrwg, a'r berthynas rhwng hyn a'u gweithredoedd a'u teimladau. Ymhellach ar hyd eu taith, mewn ffordd fwy eang a soffistigedig, gallan nhw esbonio sut y gall eu gweithredoedd arwain at ganlyniadau iddyn nhw eu hunain ac i eraill, ac i'r byd a phethau byw, gan ddefnyddio mewnwelediad o amrywiaeth o grefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol. Yn ddiweddarach, gallan nhw ragdybio a gwerthuso'r ffactorau sy'n dylanwadu ar eu hagweddau, eu hymddygiad a'u gweithredoedd, a rhai pobl eraill, gan gynnwys ffactorau sy'n ymwneud â chredoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â ‘gwneud penderfyniadau’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau adnabod enghreifftiau sylfaenol o gyfyng gyngor moesol a chynnig atebion. Ymhellach ar hyd eu taith, maen nhw’n adnabod rheolau a chodau ymddygiad (crefyddol ac anghrefyddol) sy'n berthnasol iddyn nhw ac eraill o'u cwmpas, a gallan nhw esbonio eu heffaith ar fywydau pobl. Yn ddiweddarach, gyda soffistigeiddrwydd cynyddol, gall dysgwyr ddechrau adnabod y cyfrifoldebau a'r heriau sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau, a'u trafod yn feirniadol, gan ddangos dealltwriaeth o ffigyrau, prosesau a sefydliadau perthnasol sy'n cyfrannu at wneud penderfyniadau, mewn cyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol. Bydd dysgwyr yn adnabod cyfleoedd lle mae angen cymryd camau moesol priodol yn eu cymunedau, yng Nghymru ac yn y byd ehangach.

## Taith ddysgu enghreifftiol 4: hunaniaeth a pherthyn

Mae'r daith ddysgu hon yn seiliedig ar ddau ddatganiad o'r hyn sy'n bwysig yn bennaf: ‘Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd’ ac ‘Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw’n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl’. Gellir archwilio cysylltiadau gyda datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig, ynghyd â Meysydd eraill, drwy'r is-lens hon hefyd.

Bydd y disgrifiadau dysgu'n helpu i roi arweiniad manylach ar gynnydd.

Mae a wnelo'r daith hon â'r ‘hyn sy'n gwneud pobl yn bwy ydyn nhw’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o bwy ydyn nhw a'u bod yn debyg ac yn wahanol i eraill. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, byddan nhw’n trafod yr hyn a all ffurfio hunaniaeth (er enghraifft, cydberthnasau, ffyrdd o fyw, credoau a lle) a'r ffordd y mae'r rhain yn dylanwadu ar bobl a'u cymunedau. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr adolygu a gwerthuso amrywiaeth o athroniaethau crefyddol ac anghrefyddol, safiadau mewn bywyd ac arferion sy'n

ymwneud â'r hyn y mae bod yn ddynol yn ei olygu, a gallan nhw ffurfio eu safbwyntiau eu hunain a'u hystyried mewn ffordd feirniadol.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â ‘chymunedau, cyfraniadau ac amrywiaeth’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau deall eu bod yn rhan o grwpiau a chymunedau amrywiol, ac yn dechrau deall beth yw perthyn. Maen nhw’n ymwybodol o amrywiaeth o fewn cymunedau perthnasol a'r ffaith bod eu profiadau o berthyn yn debyg ac yn wahanol i brofiadau pobl eraill. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw archwilio ffyrdd o fynegi ymdeimlad o berthyn mewn amrywiaeth o gyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol. Gallan nhw drafod arwyddocâd perthyn ym mywydau pobl, gan gynnwys eu bywydau eu hunain. Yn ddiweddarach, ac yn fwyfwy soffistigedig, gall dysgwyr adnabod a gwerthuso’r berthynas rhwng perthyn, ymrwymiad a chyfraniadau at gymdeithas, diwylliant a lles.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â ‘lle, amser a chydberthnasau’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol eu bod yn bodoli mewn lle ac amser, a bod hyn yn eu llywio hwy a'r cymunedau o'u cwmpas. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw archwilio'r rhyngweithio rhwng amrywiaeth o gymunedau a chymdeithasau yn lleol ac yn ehangach, a gallan nhw drafod cyfraniadau hunaniaeth a pherthyn o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Gallan nhw ddechrau adnabod parhad a newid mewn hunaniaeth a pherthyn, a'r ffyrdd y cânt eu profi yn bersonol ac ar y cyd. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr archwilio a gwerthuso cydberthnasau a rhyngddibyniaethau rhwng amrywiaeth o grwpiau, cymunedau a chymdeithasau (yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang) a'u heffaith ar fywydau pobl a'r byd naturiol. Gallan nhw ystyried yn feirniadol rolau hunaniaeth a pherthyn er mwyn deall materion cyfoes cyffredin, ac ymateb iddyn nhw o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol.

## Taith ddysgu enghreifftiol 5: awdurdod a dylanwad

Mae'r daith ddysgu hon yn seiliedig ar dri datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn bennaf: ‘Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a’u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd’, ‘Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl’ ac ‘Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i’r afael â’r heriau a’r cyfleoedd sy’n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol’. Gellir archwilio cysylltiadau gyda datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig, ynghyd â Meysydd eraill, drwy'r is-lens hon hefyd.

Bydd y disgrifiadau dysgu'n helpu i roi arweiniad manylach ar gynnydd.

Mae a wnelo'r daith hon ag ‘awdurdodau a dylanwadau’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau sylweddoli bod rhai pobl bwysig yn dylanwadu arnyn nhw, a bod hyn yn effeithio ar y ffordd y maen nhw’n teimlo, yn meddwl ac yn ymddwyn. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw adnabod ac archwilio gwahanol ffynonellau awdurdod mewn cyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol (er enghraifft, arweinwyr, cydberthnasau, testunau, codau ymddygiad a thraddodiadau). Yn y pen draw gallan nhw ddeall bod ffynonellau awdurdod yn dylanwadu ar fywydau pobl mewn amrywiaeth o ffyrdd. Yn ddiweddarach, wrth i ddealltwriaeth dysgwyr ddatblygu, gallan nhw ddadansoddi a gwerthuso cydberthnasau cymhleth (gan gynnwys eu rhai eu hunain) sy'n bodoli ymhlith ac ar draws ffynonellau awdurdod. Yn ddiweddarach, gallan nhw ystyried yn feirniadol awdurdod profiad crefyddol ac ysbrydol ac awdurdod cydwybod, yn y gorffennol a'r presennol, a'u heffaith ar bobl, cymdeithas a diwylliant.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â ‘phrofiadau a dehongliadau’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol o ddylanwadau pwysig ym mywydau pobl eraill, a'r ffaith bod eu profiadau'n debyg ac yn wahanol i'w profiadau eu hunain. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw archwilio'r ffaith y caiff ffynonellau awdurdod eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol gan bobl a grwpiau amrywiol, o fewn cyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol. Yn y pen

draw gallan nhw adnabod dylanwadau ar ddehongliadau a bod rhai ffynonellau awdurdod yn fwy dylanwadol nag eraill i wahanol bobl, grwpiau a chymdeithasau. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ddefnyddio sawl ffynhonnell awdurdod i werthuso dehongliadau crefyddol ac anghrefyddol o faterion sy'n berthnasol i'r cyflwr dynol, a gallan nhw gyflwyno eu safbwyntiau gwybodus eu hunain. Gallan nhw ystyried yn feirniadol sut a pham y gall profiadau a chysyniadau o awdurdod newid dros amser.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â ‘dewisiadau a gweithredoedd’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau deall y gall dewisiadau effeithio ar eu gweithredoedd. Gallan nhw ddangos ymwybyddiaeth o ddylanwadau ar eu dewisiadau. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw sylweddoli sut mae pobl a chymunedau'n defnyddio ffynonellau awdurdod crefyddol ac anghrefyddol i'w harwain yn eu bywydau a llywio penderfyniadau pwysig. Yn ddiweddarach, wrth i ddealltwriaeth dysgwyr ddatblygu, gallan nhw ddefnyddio eu gwybodaeth am amrywiaeth o ffynonellau awdurdod, a'u dealltwriaeth ohonyn nhw, i ymgysylltu'n feirniadol â materion neu ddadleuon egwyddorol cyfoes, a dylanwadu ar weithredoedd a chanlyniadau posibl (er enghraifft, her, consensws a chymodi).

## Taith ddysgu enghreifftiol 6: cydberthnasau a chyfrifoldeb

Mae'r daith ddysgu hon yn seiliedig ar ddau ddatganiad o'r hyn sy'n bwysig yn bennaf: ‘Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol’ ac ‘Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl’. Gellir archwilio cysylltiadau gyda datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig a chyda Meysydd eraill drwy'r is-lens hon hefyd.

Bydd y disgrifiadau dysgu'n helpu i roi arweiniad manylach ar gynnydd.

Mae a wnelo'r daith hon â'r ‘ffordd y mae pobl yn byw gyda'i gilydd’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau deall eu bod yn byw mewn nifer o gydberthnasau. Maen nhw’n ymwybodol o'r hyn sy'n eu helpu i fyw gydag eraill. Gallan nhw gynnig barn ar ffyrdd o ddatrys anghytundeb. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw adnabod a thrafod ffyrdd y caiff pwysigrwydd cydberthnasau (personol, cymdeithasol, amgylcheddol a throsgynnol) ei fynegi ym mywydau pobl, gan gyfeirio at gyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr sylweddoli bod cydberthnasau yn ddeinamig ac yn gymhleth. Gallan nhw ystyried yn feirniadol ddylanwadau a all gyfrannu at gytgord ac anghytgord yn fyd-eang, yn lleol ac yn bersonol (gan gynnwys dylanwadau crefyddol ac anghrefyddol). Gallan nhw adolygu a gwerthuso heriau sy'n gysylltiedig â chydberthnasau, gan gyfeirio at amrywiaeth o fewnwelediadau a phrofiadau crefyddol ac anghrefyddol.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â ‘chyfrifoldebau a chydgysylltiad’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol o gysylltiadau rhwng eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill, y byd naturiol a phethau byw. Gallan nhw ddangos cyfrifoldeb at eraill drwy weithredoedd syml. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw adnabod pam a sut mae pobl yn dangos cyfrifoldeb at bobl ac at leoedd y tu hwnt i'w cydberthnasau personol. Gallan nhw drafod dimensiynau materol ac anfaterol cydberthnasau (gan gynnwys dimensiynau ysbrydol, crefyddol a moesol), ac, yn y pen draw, gallan nhw adnabod cysylltiadau â thwf bodau dynol a sut y gall pobl fyw gyda'i gilydd yn gyfrifol yn y byd. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ddechrau datblygu gwerthfawrogiad beirniadol o faterion arwyddocaol sy'n effeithio ar gydberthnasau ar lefel fyd-eang a gallan nhw ddychmygu sawl dyfodol posibl. Gallan nhw ymgysylltu'n feirniadol ag amrywiaeth o athroniaethau crefyddol ac anghrefyddol gan archwilio cydgysylltiad mewn bywyd, yn ogystal â natur a dealltwriaeth bodau dynol oddi mewn iddo.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â ‘lles, hunaniaeth a chynhwysiant’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol o'u profiadau a'u teimladau eu hunain pan

fyddan nhw’n cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill. Gallan nhw gydnabod bod gan bobl eraill brofiadau a theimladau hefyd, a'u bod yn debyg ac yn wahanol i'w profiadau a'u teimladau eu hunain. Byddan nhw’n dangos chwilfrydedd am fywydau pobl eraill. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw archwilio sut y gall gweithredu olygu ymroddiad ac aberth sylweddol (yn y gorffennol a'r presennol) a chael effaith fawr ar fywydau a lles pobl eraill ac ar y byd ehangach. Yn y pen draw gallan nhw adnabod cysylltiadau rhwng gweithredoedd a hunaniaeth, gan gynnwys dylanwadau crefyddol ac anghrefyddol. Gallan nhw adnabod annhegwch ac anghydraddoldeb yn eu bywydau personol eu hunain ac mewn cymdeithas ehangach, ac awgrymu heriau priodol. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ystyried yn feirniadol sut bethau yw cydberthnasau iach a beth yw eu cyfraniad at les, gan gyfeirio at amrywiaeth o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Gallan nhw ddechrau deall a gwerthuso cydberthnasau rhwng hunaniaeth bersonol a hunaniaeth grŵp berthnasol.

## Taith ddysgu enghreifftiol 7: taith bywyd

Mae'r daith ddysgu hon yn seiliedig ar ddau ddatganiad o'r hyn sy'n bwysig yn bennaf: ‘Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd’ ac ‘Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw’n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl’. Gellir archwilio cysylltiadau gyda datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig, ynghyd â Meysydd eraill, drwy'r is-lens hon hefyd.

Bydd y disgrifiadau dysgu'n helpu i roi arweiniad manylach ar gynnydd.

Mae a wnelo'r daith hon ag ‘ystyr, pwrpas a dylanwad’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau sylweddoli bod gan bobl straeon personol eu bywydau. Bydd dysgwyr yn dechrau adrodd hanes eu bywydau eu hunain. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw archwilio amrywiaeth o lwybrau bywyd y mae pobl wedi'u profi, gan gyfeirio at gyd-destunau a dylanwadau crefyddol ac anghrefyddol. Yn y pen draw gallan nhw adnabod cysylltiadau â chreu ystyr a phwrpas. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ddadansoddi'r cysyniad o alwad yn y gorffennol a'r presennol, a'i ystyried yn feirniadol, o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Gallan nhw archwilio heriau y bydd pobl yn eu hwynebu ar hyd llwybr bywyd, a gwerthuso ymatebion crefyddol ac anghrefyddol.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â ‘chamau a digwyddiadau bywyd’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol eu bod yn tyfu ac yn newid dros amser. Byddan nhw’n profi ac yn cymharu'r ffyrdd y caiff eu twf eu hunain a thwf pobl eraill eu cydnabod a'u dathlu. Gallan nhw ddangos y cysylltiad rhwng eu bywydau ac adegau a thymhorau arbennig. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw archwilio digwyddiadau a newidiadau arwyddocaol mewn bywyd, a gallan nhw drafod eu rolau ym mywydau pobl drwy gyfeirio at fewnwelediadau crefyddol ac anghrefyddol. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ddadansoddi gweithredoedd defodol pobl wrth nodi digwyddiadau arwyddocaol ac amser, a'u trafod yn feirniadol. Gallan nhw ddechrau gwerthuso athroniaethau perthnasol ynghylch amser, o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol, a dangos sut y gall y rhain effeithio ar gredoau, arferion a gweithredoedd.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â ‘theithiau corfforol ac ysbrydol’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau sylweddoli eu bod yn mynd ar lawer o deithiau gwahanol am resymau amrywiol. Maen nhw’n dangos diddordeb yn nheithiau pobl eraill a gallan nhw weld ym mha ffyrdd y mae eu teithiau'n debyg ac yn wahanol i'w profiadau eu hunain. Maen nhw’n ymwybodol bod gan deithiau nodweddion corfforol yn ogystal â nodweddion anfaterol. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw archwilio profiadau pobl o deithiau pwysig o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol, a gallan nhw nodi rhesymau dros y teithiau hyn. Yn y pen draw gallan nhw ddeall bod teithiau'n gysylltiedig â lle ac amser. Gallan nhw ddychmygu sut beth y gallai taith bwysig fod yn eu bywydau eu hunain. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr adnabod a gwerthuso cydberthnasau rhwng teithiau corfforol ac ysbrydol a'u heffeithiau ar fywydau unigolion, cymunedau a

chymdeithas ehangach (er enghraifft mewn perthynas â hunaniaeth, ffurfiant bodau dynol, amrywiaeth, diwylliant). Gallan nhw ystyried y cydgysylltiad rhwng teithiau, tirweddau a phobl mewn lleoedd ac ar adegau gwahanol, gan gyfeirio at gyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol.

## 13. Cyfoethogi profiadau dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Pa ddull bynnag a ddefnyddir i gynllunio'r cwricwlwm, bydd angen i ysgolion a lleoliadau sicrhau darpariaeth gyfoethog ar gyfer dysgu o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy amrywiaeth eang o brofiadau. Mae profiadau dysgu yn agwedd ganolog ar athroniaeth **Fframwaith Cwricwlwm i Gymru**. Wrth gynllunio eu cwricwlwm, dylai ysgolion a lleoliadau sicrhau y cynigir amrywiaeth o brofiadau i'r dysgwyr sy'n briodol yn ddatblygiadol, ac sy'n berthnasol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Gall y profiadau hyn gynnwys cyfleoedd i wneud y canlynol:

- ymgysylltu â chymunedau lleol crefyddol ac anghrefyddol, mewn ffyrdd a fydd yn ystyrlon ac yn werthfawr i'r dysgwyr
- chwarae rôl a chymryd rhan mewn gweithgareddau megis dathliadau neu ddigwyddiadau ail-greu, neu arsylwi arnyn nhw
- ystyried yr hyn sy'n dylanwadu ar bobl wrth iddyn nhw ymateb i gyfyng gyngor moesegol, datrys problemau gwirioneddol a phresennol, ac ystyried digwyddiadau yn y gorffennol
- profi ac ystyried dirgelwch a rhyfeddod y byd naturiol, lleoliadau hanesyddol a safleoedd crefyddol a diwylliannol
- arsylwi a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol sy'n helpu dysgwyr i ddeall profiadau dynol
- archwilio a thrin a thrafod arteffactau a gwrthrychau crefyddol, gan gynnwys testunau cysegredig a thestunau eraill
- ymweld â mannau addoli lleol ynghyd â lleoedd, tirweddau ac amgylcheddau arbennig eraill, gan gynnwys rhai sydd â dimensiwn crefyddol ac ysbrydol arwyddocaol
- cwrdd â phobl y mae ffydd a chred yn bwysig iddyn nhw er mwyn helpu dysgwyr i archwilio profiadau bob-dydd
- gofyn cwestiynau mawr sy'n ymwneud â phwerau uwch neu realiti eithaf, y byd, ystyr a phwrpas bywyd a'u profiadau eu hunain
- trin a thrafod gwahanol fathau o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol er enghraifft arweinwyr crefyddol, pobl â ffydd a chred, athronwyr, mannau addoli, arteffactau, testunau cysegredig a gweithiau athronyddol
- dysgu sut i ymateb i gredoau ac argyhoeddiadau pobl eraill gan ystyried a dadansoddi eu safbwyntiau a'u gwerthoedd eu hunain ar yr un pryd

Hefyd, er mwyn cyfoethogi profiadau dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, mae angen i ysgolion a lleoliadau archwilio eu lle yn y gymuned leol a'r gymuned ehangach fel cam pwysig yn y broses o gynllunio eu cwricwlwm. I ategu hyn, gall ysgolion a lleoliadau ymchwilio i'r grwpiau ffydd a chred a gynrychiolir yn lleol a ledled Cymru, yn ogystal â lleoedd a mannau cysegredig, yn y gorffennol a'r presennol.

## 14. Cysylltiadau allweddol â Meysydd eraill

Wrth gynllunio'r cwricwlwm mewn ysgolion a lleoliadau, dylid archwilio cysylltiadau a rhyngddibyniaethau clir rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r Meysydd eraill fel rhan o **gwricwlwm cyfannol**. Dylid defnyddio'r cysylltiadau a'r rhyngddibyniaethau hyn wrth gynllunio'r cwricwlwm, a dylai ymarferwyr gydweithio'n greadigol er mwyn cefnogi dysgwyr i wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

## 15. Pwyntiau i ysgolion a lleoliadau eu hystyried

Gall ysgolion a lleoliadau ddefnyddio'r cwestiynau canlynol wrth gynllunio eu cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

- Ydych chi wedi ystyried sut y bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn gweithio orau o fewn Maes y Dyniaethau?
- Ydych chi wedi ystyried eich maes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydy'r ffordd rydych yn cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn helpu i wireddu'r pedwar diben?
- Ydych chi wedi defnyddio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y Maes hwn er mwyn eich helpu i gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi defnyddio cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi ystyried amrywiaeth o is-lensys y gellir eu defnyddio i edrych ar gysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg er mwyn helpu i gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi ystyried cynnydd dysgu mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan ddefnyddio'r egwyddorion cynnydd a'r disgrifiadau dysgu Maes y Dyniaethau?
- Ydych chi wedi ystyried y 'teithiau dysgu' a ddarparwyd er mwyn eich helpu i ddeall cynnydd mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydych chi wedi myfyrio ar deithiau dysgu posibl eich dysgwyr eich hun er mwyn eich helpu i gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydych chi wedi cynnwys cyfleoedd i gyfoethogi profiadau dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi gwneud cysylltiadau clir rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r meysydd dysgu a phrofiad eraill?
- Ydych chi wedi cynnwys cyfleoedd ar gyfer datblygiad ysbrydol dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydy'r ffordd rydych yn cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn sicrhau dyfnder, ehangder ac ansawdd dysgu priodol?

## 16. Sicrhau cynwysoldeb mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Dylai pob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gael cymorth i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a gwireddu ei botensial llawn mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Dylai ysgolion a lleoliadau sy'n rhoi addysg i ddysgwyr ag ADY, gan gynnwys y rhai ag anawsterau dwys a lluosog, ystyried y ffyrdd gorau o ddiwallu anghenion pob dysgwr wrth gynllunio a chynnig cyfleoedd dysgu effeithiol mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Gallai'r ystyriaethau hyn gynnwys, er enghraifft:

- dulliau gweithredol ac amlsynnwyr o gyflwyno pethau newydd i'w dysgu mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan ystyried gwahanol ddulliau dysgu ac anghenion emosiynol pob dysgwr
- cyfleoedd cynhwysol i ddysgwyr brofi rhyfeddod mewn amrywiaeth o amgylcheddau
- defnyddio amrywiaeth o ysgogiadau, megis arteffactau crefyddol ac anghrefyddol a chyd-destunau perthnasol
- pob dysgwr yn cymryd rhan yn llawn, gan gynnwys y rhai sy'n cyfathrebu drwy ddulliau heblaw siarad
- gweithgareddau sy'n cynnwys pob dysgwr o fewn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi, er enghraifft, wrth ymweld â mannau addoli lleol a lleoedd arbennig ac arwyddocaol eraill

Wrth weithio gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, dylai ymarferwyr a gofalwyr fod yn ymwybodol o ddull gweithredu'r ysgol neu'r lleoliad mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Maes y Dyniaethau.

I gael rhagor o wybodaeth am ADY, gweler canllawiau **Ar Drywydd Dysgu** a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021.

## 17. Addysg mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

Dylai darpariaeth addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn lleoliad meithrin a ariennir nas cynhelir gael ei hystyried fel rhan o ddull cyfannol cyffredinol mewn perthynas â dysgu a datblygu. Mae adran 'Cynllunio eich cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg' y canllawiau hyn yn cynnig rhagor o wybodaeth am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg i ddysgwyr rhwng 3 ac 16 oed, er mwyn helpu ymarferwyr yn y lleoliadau hyn gyda'r dull cyfannol hwn.

Mae chwilfrydedd dysgwyr ifanc yn ddi-ben-draw; maen nhw'n mwynhau archwilio ac ymchwilio ar eu pen eu hunain ac ar y cyd ag eraill, ac maen nhw'n naturiol yn gofyn cwestiynau am fywyd a'r byd o'u cwmpas. Drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol ac integredig sy'n ennyn eu diddordeb o fewn y cyfnod dysgu hwn, gall dysgwyr ddechrau dysgu mwy amdanyn nhw eu hunain, am bobl eraill ac am y byd ehangach.

Dylai addysgeg effeithiol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac sy'n ymatebol, yn ddeinamig ac wedi'i gwreiddio mewn cydberthnasau cryf, fod wrth wraidd y broses o ddatblygu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn lleoliad. Drwy chwarae, gall dysgwyr ddatblygu eu syniadau, eu safbwyntiau a'u teimladau gyda dychymyg, creadigrwydd a sensitifrwydd. Gall hyn helpu i lywio'r ffordd y maen nhw'n gweld y byd. Mae treulio amser yn yr awyr agored yn cefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol dysgwyr, yn ogystal â'u lles. Mae bod yn yr awyr agored hefyd yn eu helpu i ddod yn ymwybodol o'r angen i ddangos gofal a pharch tuag at bethau byw. Yn ystod y cyfnod dysgu hwn, mae dysgwyr yn dechrau deall y cysyniad o 'wahaniaeth'. Dylai ymarferwyr eu hannog i rannu eu gwybodaeth am eu credoau, eu treftadaeth a'u traddodiadau eu hunain, yn ogystal â rhai pobl eraill, ynghyd â'u profiadau ohonyn nhw (er enghraifft, drwy ganeuon, straeon a chwarae rôl). Gall hyn helpu dysgwyr ifanc i ddeall mwy amdanyn nhw eu hunain, ac am brofiadau a safbwyntiau a all fod yn wahanol i'w rhai eu hunain.

Gall amgylchedd meithringar, cefnogol lle gall dysgwyr ddysgu am eu gwahaniaethau a'u tebygrwydd eu helpu nhw i  ddechrau meithrin cydberthnasau parchus ac ymdeimlad o gyfrifoldeb.. Gallant ddechrau archwilio iaith hawliau a dechrau deall eu hawl i gredu pethau gwahanol a dilyn credoau gwahanol. Drwy hyn, gall dysgwyr ddechrau sylweddoli a deall sut y gall eu gweithredoedd effeithio ar eraill, a dysgu sut i fyfyrio ar eu safbwyntiau eu hunain a'u hailystyried, fel y bo'n briodol, a hynny o oedran cynnar.

# 18. Addysg heblaw yn yr ysgol

Mae gan bob dysgwr hawl i gael addysg. Wrth ystyried y ffyrdd gorau o ddiwallu anghenion eu dysgwyr, mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion, ystyried elfennau mandadol y cwricwlwm, sy'n cynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a sicrhau darpariaeth ar eu cyfer i'r graddau a fyddai'n rhesymol bosibl ac yn briodol i'r dysgwr unigol.

Dylai profiadau dysgwyr eu galluogi i archwilio cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym Maes y Dyniaethau, gan ddefnyddio is-lensys amrywiol o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sydd wedi'u cynnwys yn y maes llafur cytunedig hwn. Nid yw'n ofynnol i leoliadau o'r fath ddilyn y maes llafur cytunedig. Fodd bynnag, rhaid i'r addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a ddarperir yn y lleoliadau hyn fodloni'r gofyniad plwraliaethol o hyd.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y gofynion deddfwriaethol i unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol yn yr adran sy’n rhoi crynodeb o’r ddeddfwriaeth yn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

## Atodiad A: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Ôl-16

Mae'r crynodeb o'r ddeddfwriaeth yn rhoi canllawiau pellach ar agweddau perthnasol i Faes Llafur Cytunedig CGM yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dysgwyr Ôl-16. Mae'r crynodeb yn datgan:

Tra bo Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn berthnasol i blant 3 – 16 oed, cynhwysir yr arweiniad hwn er cyflawnrwydd.

Yn unol ag adran 61 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 gall pob dysgwr dros 16 ddewis cael Addysg CGM. Os bydd dysgwr yn dewis cael addysg CGM yna mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu addysg CGM sy'n wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol. Mae hyn yn gyson â'r egwyddor y dylai dysgwyr sy'n ddigon aeddfed allu gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'u dysgu eu hunain.

Os bydd dysgwr yn gwneud cais am addysg CGM yn unol ag adran 61 o'r Ddeddf mae'n rhaid dylunio'r addysg honno fel ei bod yn:

- adlewyrchu'r ffaith mai Cristnogol yn bennaf yw'r traddodiadau crefyddol yng Nghymru ar yr un pryd ag ystyried dysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru
- rhaid i'r addysg hefyd adlewyrchu'r ffaith bod gan bobl yng Nghymru amrywiaeth o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol.

Nid yw Adran 61 y Ddeddf yn rhwystro ysgol rhag pennu gofyniad i bob dysgwr yn ei chweched dosbarth fynychu gwersi CGM gorfodol; nid yw ychwaith yn rhwystro ysgol rhag darparu addysg CGM 6ed dosbarth orfodol sy'n cyd-fynd â gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad crefyddol ("CMG enwadol"). Mater i'r ysgol o hyd fydd cynnwys y fath CMG enwadol.

Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council



# Canllawiau Ategol

## ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

# 2022-27



*Cynnwys y Canllawiau Ategol:*

*Tudalen 2 … Canllawiau Ategol ar y Maes Llafur Cytunedig – Cysyniadau*

Mae Maes Llafur Cytunedig Siroedd Conwy a Dinbych ar gyfer Addysg, Gwerthoedd a Moeseg yn cynnwys nifer o wahanol gysyniadau, rhai ohonynt wedi'u cynnwys yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, rhai wedi'u cynnwys yn y disgrifiadau dysgu, a rhai wedi'u cynnwys yn y Maes Llafur Cytunedig yn unig. Mae'r cysyniadau ychwanegol sydd yn y Maes Llafur Cytunedig yn cael eu defnyddio i gael gwell dealltwriaeth o'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn y Dyniaethau.

*Tudalen 3 - 5… Tabl 1: Cysyniadau yn y Maes Llafur Cytunedig wedi'u croesgyfeirio at y cysyniadau a nodwyd yn y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau a'r Disgrifiadau Dysgu.*

*Tudalen 6 … Tabl 2: Coladiad o'r wybodaeth sydd yn Nhabl 1*

*Tudalen 7 … Canllawiau Ategol ar y Maes Llafur Cytunedig - Lensiau*

Tabl sy'n crynhoi'r 7 lens a'r datganiadau 'Mae'n ymwneud â hyn' sy'n gysylltiedig â nhw sydd wedi'u cymryd o'r adran 'Teithiau Dysgu' ym Maes Llafur Cytunedig Siroedd Conwy a Dinbych ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

*Tudalen 8 - 14… Canllawiau Ategol ar y Maes Llafur Cytunedig – Teithiau*

Tabl sy'n amlinellu datganiadau 'Mae'n ymwneud â hyn' y teithiau dysgu a chanllawiau'r 'Camau Cynnar', 'Yn Bellach Ymlaen' ac 'Yn Ddiweddarach' ar gynnydd, wedi'u croesgyfeirio at y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig y maent wedi'u seilio arnynt yn bennaf.

*Tudalen 15 … Canllawiau Ategol ar y Maes Llafur Cytunedig – Pwyntiau i'w hystyried ar gyfer ysgolion a lleoliadau*

*Dylid nodi bod yr holl wybodaeth isod yn dod o Faes Llafur Cytunedig Siroedd Conwy a Dinbych ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.*

## *Canllawiau Ategol ar y Maes Llafur Cytunedig – Cysyniadau*

Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Dyniaethau yn caniatáu i ddysgwyr ymchwilio ac ymdrin yn feirniadol â chysyniadau crefyddol ac anghrefyddol o lawer math, a ddylai gael eu hystyried yn ofalus ac sy'n sail i gynllun y cwricwlwm.

Drwy ymchwilio i'r cysyniadau, bydd dysgwyr yn gallu ymdrin ymhellach â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Dyniaethau. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cyfeirio at gysyniadau a ddylai arwain at fwy o ystyriaeth i'r datganiad wrth ymchwilio iddynt.

Mae Maes Llafur Cytunedig Siroedd Conwy a Dinbych ar gyfer Addysg, Gwerthoedd a Moeseg yn cynnwys nifer o wahanol gysyniadau, rhai ohonynt wedi'u cynnwys yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, rhai wedi'u cynnwys yn y disgrifiadau dysgu, a rhai wedi'u cynnwys yn y Maes Llafur Cytunedig yn unig. Mae'r cysyniadau ychwanegol sydd yn y Maes Llafur Cytunedig yn cael eu defnyddio i gael gwell dealltwriaeth o'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn y Dyniaethau.

Mae'r tablau isod wedi'u cynnwys i helpu athrawon i ganfod cysyniadau y gallent fod am eu datblygu yn eu cwricwlwm a sut y gallent hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Dyniaethau. Fodd bynnag, nid yw'r cysyniadau'n cael eu hystyried yn rhai sy'n 'perthyn' i ddatganiadau penodol o'r hyn sy'n bwysig. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Dyniaethau yn ategu ei gilydd ac ni ddylid eu hystyried ar wahân i'w gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn cyfrannu at gyflawni pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru.

*Tabl 1: Cysyniadau yn y Maes Llafur Cytunedig wedi'u croesgyfeirio at y cysyniadau a nodwyd yn y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau a'r Disgrifiadau Dysgu.*

| Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Dyniaethau | Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol. | Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd. | Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. | Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Dyniaethau | Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol. |
|---|---|---|---|---|---|
| Cysyniadau sydd wedi'u cynnwys ym mharagraff olaf pob un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig – geiriau cyntaf pob paragraff yw… *"Mae'r agwedd hon o'r Maes hwn yn ysgogi archwilio cysyniadau gan gynnwys.."* | • cwestiynu<br>• tystiolaeth<br>• gwerthuso<br>• moeseg<br>• barn | • chwilio am ystyr<br>• dod i farn<br>• cwestiynau athronyddol a phwysig bywyd<br>• ffyrdd o gyfleu<br>• safbwyntiau<br>• dehongliadau<br>• arwyddocâd<br>• dilysrwydd | • y berthynas rhwng pobl a'r byd naturiol<br>• achos ac effaith<br>• newid a pharhad<br>• arwyddocâd<br>• lle<br>• gofod<br>• prosesau ffisegol | • cronoleg<br>• newid a pharhad<br>• amrywiaeth<br>• achos ac effaith<br>• cydgysylltiad<br>• cymuned<br>• hunaniaeth a pherthyn<br>• awdurdod a llywodraethiant | • dinasyddiaeth<br>• awdurdod a llywodraethiant<br>• cydgysylltiad<br>• cyfiawnder a chydraddoldeb<br>• menter<br>• hawliau<br>• gweithredu cymdeithasol<br>• cyfrifoldeb |
| Wrth ystyried cysyniadau CGM yn eu cwricwlwm, dylai ysgolion a lleoliadau feithrin dealltwriaeth o'r ddisgyblaeth a'i gwerth. Mae'r disgyblaethau'n cynnwys: Astudiaethau crefyddol, Athroniaeth, Diwinyddiaeth, Cymdeithaseg, Seicoleg, Anthropoleg – gweler Maes Llafur Cytunedig Conwy 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru'. | | | | | |
| Wrth ystyried cysyniadau CGM yn eu cwricwlwm, dylai ysgolion a lleoliadau ddarparu cyd-destunau cyfoethog lle gall dysgwyr fod yn chwilfrydig, i ymchwilio i **gwestiynau pwysig bywyd** a chwilio am ddealltwriaeth o'r **cyflwr dynol**, yn ogystal â darparu cyfleoedd i ddysgwyr fyfyrio a phrofi **syndod a rhyfeddod**, mewn amrywiaeth o gyd-destunau ystyrlon yn y byd go iawn. | | | | | |
| Cwestiynau Pwysig Bywyd | | x | | | |
| Y Cyflwr Dynol | x | | | | |
| Syndod a Rhyfeddod | | | x | | |
| Wrth ystyried cysyniadau CGM yn eu cwricwlwm, dylai ysgolion a lleoliadau ddatblygu cyd-destunau cyfoethog ar gyfer **ymholi** ynghylch cysyniadau **crefydd**, **crefydd mewn cymdeithas**, **byd-olygon**, **seciwlaredd**, **ysbrydolrwydd**, **agwedd at fywyd**, **hunaniaeth** a **diwylliant** er mwyn meithrin dealltwriaeth cynhwysfawr ymysg dysgwyr o gredoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol (o'r 'Cysyniadau CGM' – Maes Llafur Cytunedig Siroedd Conwy a Dinbych). | | | | | |
| Ymholi | x | | | | |
| Crefydd | | | | x | |
| Crefydd mewn cymdeithas | | | | | |
| Byd-olygon | x | | | | |
| Seciwlaredd | | | | | |
| Ysbrydolrwydd | | | x | x | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Agwedd at fywyd | | | | | |
| Hunaniaeth | | x | | x | |
| Diwylliant | | | | x | |
| Wrth ystyried cysyniadau CGM yn eu cwricwlwm, dylai ysgolion a lleoliadau ddatblygu cyd-destunau cyfoethog ar gyfer ymdrin â chysyniadau am **<u>gred</u>, <u>ffydd</u>**, **<u>gwirionedd</u>**, **<u>pwrpas</u>**, **<u>ystyr</u>**, **<u>gwybodaeth</u>**, **<u>ffynonellau</u> <u>awdurdod</u>**, **<u>yr hunan</u>**, **<u>tarddiad</u>**, **<u>bywyd</u>**, **<u>marwolaeth</u>** a **<u>realiti sylfaenol</u>**, a fydd yn rhoi'r gallu i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth o **<u>gredoau personol</u>** a **<u>sefydliadol</u>** am **<u>natur bywyd a'r byd</u>** o'u cwmpas. | | | | | |
| Credo | | | x | x | x |
| Ffydd | | | | | |
| Gwirionedd | | | | | |
| Pwrpas | | | | | x |
| Ystyr | x | x | | | x |
| Gwybodaeth | | | | | |
| Ffynonellau | x | x | | | |
| Awdurdod | | | | x | x |
| Yr Hunan | | x | | x | x |
| Tarddiad | | | | | |
| Bywyd | | | | | |
| Marwolaeth | | | | | |
| Realiti sylfaenol | | | | | |
| Credoau personol | | x | | | |
| Credoau sefydliadol | | | | | |
| Natur bywyd | | | | | |
| Natur y byd | | | | | |
| Wrth ystyried cysyniadau CGM yn eu cwricwlwm, dylai ysgolion a lleoliadau ddatblygu cyd-destunau cyfoethog ar gyfer ymchwilio i gysyniadau am **<u>hunaniaeth</u>**, **<u>perthyn</u>**, **<u>cydberthnasau</u>**, **<u>cymuned</u>**, **<u>cynefin</u>**, **<u>amrywiaeth</u>**, **<u>plwraliaeth</u>** a **<u>chydgysylltiad</u>**, a fydd yn rhoi'r gallu i ddysgwyr feithrin **<u>ymdeimlad o'r hunan</u>** a datblygu **<u>ysbrydolrwydd.</u>** | | | | | |
| Hunaniaeth | | | | x | |
| Perthyn | | | x | x | |
| Cydberthnasau | | | x | | |
| Cymuned | | | | x | |
| Cynefin | | | x | x | |
| Amrywiaeth | | | | x | x |
| Plwraliaeth | | | | x | |
| Cydgysylltiad | | | | x | x |
| Ymdeimlad o'r hunan | | x | | x | x |
| Ysbrydolrwydd | | | x | x | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Wrth ystyried cysyniadau CGM yn eu cwricwlwm, dylai ysgolion a lleoliadau archwilio cysyniadau am **<u>gydraddoldeb</u>**, **<u>cynaliadwyedd</u>**, **<u>goddefgarwch</u>**, **<u>rhyddid</u>**, **<u>rhagfarn</u>**, **<u>gwahaniaethu</u>**, **<u>eithafiaeth</u>**, **<u>da</u>** a **<u>drwg</u>**, sy'n gallu rhoi mewnwelediad i ddysgwyr i'r heriau a chyfleoedd y mae cymdeithasau yn eu hwynebu. | | | | | |
| Cydraddoldeb | | | | | x |
| Cynaliadwyedd | | | x | | x |
| Goddefgarwch | | | | x | |
| Rhyddid | | | | | |
| Rhagfarn | | | | | |
| Gwahaniaethu | | | | | |
| Eithafiaeth | | | | | |
| Da | | | | | |
| Drwg | | | | | |
| Wrth ystyried cysyniadau CGM yn eu cwricwlwm, dylai ysgolion a lleoliadau roi sylw i gysyniadau a chyd-destunau o ran **<u>crefyddusrwydd</u>**, **<u>arferion</u>**, **<u>defodau</u>**, **<u>traddodiad</u>**, **<u>addoli</u>**, **<u>cysegredigrwydd</u>**, **<u>symboliaeth</u>** a **<u>dathlu</u>** i feithrin dealltwriaeth o grefydd a chredo ymysg dysgwyr. | | | | | |
| Crefyddusrwydd | | | | | |
| Arferion | | | | | |
| Defodau | | | | | |
| Traddodiad | | | | | |
| Addoli | | | | | |
| Cysegredigrwydd | | | | | |
| Symboliaeth | | | | | |
| Dathlu | | | | | |
| Wrth ystyried cysyniadau CGM yn eu cwricwlwm, dylai ysgolion a lleoliadau ddatblygu cyd-destunau cyfoethog ar gyfer ymchwilio i gysyniadau am **<u>foeseg</u>**, **<u>moesoldeb</u>**, **<u>cyfiawnder</u>**, **<u>cyfrifoldebau</u>**, **<u>awdurdod</u>**, **<u>dyngarwch</u>**, **<u>hawliau</u>**, **<u>gwerthoedd</u>**, a **<u>gweithredu cymdeithasol.</u>** | | | | | |
| Moeseg | x | | | x | x |
| Moesoldeb | | | | | x |
| Cyfiawnder | | | | | x |
| Cyfrifoldeb | | | | | x |
| Awdurdod | | | | x | x |
| Dyngarwch | x | | | | |
| Hawliau | | | | | x |
| Gwerthoedd | | | | x | x |
| Gweithredu cymdeithasol | | | | | x |

*Table 2: A collation of the information presented in Table 1*

| Mae'r paragraff olaf ym mhob un o'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig yn datgan: "*Mae'r agwedd hon o'r Maes hwn yn ysgogi archwilio cysyniadau gan gynnwys …*" | • cwestiynu<br>• tystiolaeth<br>• gwerthuso<br>• moeseg<br>• barn | • chwilio am ystyr<br>• dod i farn<br>• cwestiynau athronyddol a phwysig bywyd<br>• ffyrdd o gyfleu<br>• safbwyntiau<br>• dehongliadau<br>• arwyddocâd<br>• dilysrwydd | • y berthynas rhwng pobl a'r byd naturiol<br>• achos ac effaith<br>• newid a pharhad<br>• arwyddocâd<br>• lle<br>• gofod<br>• prosesau ffisegol | • cronoleg<br>• newid a pharhad<br>• amrywiaeth<br>• achos ac effaith<br>• cydgysylltiad<br>• cymuned<br>• hunaniaeth a pherthyn<br>• awdurdod a llywodraethiant | | • dinasyddiaeth<br>• awdurdod a llywodraethiant<br>• cydgysylltiad<br>• cyfiawnder a chydraddoldeb<br>• menter<br>• hawliau<br>• gweithredu cymdeithasol<br>• cyfrifoldeb | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Cysyniadau a nodwyd yn y Maes Llafur Cytunedig ac yn y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a/neu Ddisgrifiadau Dysgu.* | Chwilfrydig<br>Y Cyflwr Dynol<br>Ymholi<br>Byd-olygon<br>Ystyr<br>Ffynonellau<br>Moeseg<br>Dyngarwch | Cwestiynau Pwysig Bywyd<br>Hunaniaeth<br>Ystyr<br>Ffynonellau<br>Yr Hunan<br>Ymdeimlad o'r Hunan | Syndod a Rhyfeddod<br>Ysbrydolrwydd<br>Credo<br>Perthyn<br>Cydberthnasau<br>Cynefin<br>Cynaliadwyedd | Crefydd<br>Ysbrydolrwydd<br>Hunaniaeth<br>Diwylliant<br>Credo<br>Awdurdod<br>Yr Hunan<br>Perthyn | Cymuned<br>Cynefin<br>Amrywiaeth<br>Plwraliaeth<br>Cydgysylltiad<br>Ymdeimlad o'r Hunan<br>Ysbrydolrwydd<br>Goddefgarwch | Credo<br>Pwrpas<br>Ystyr<br>Awdurdod<br>Yr Hunan<br>Amrywiaeth<br>Cydgysylltiad<br>Ymdeimlad o'r Hunan<br>Cydraddoldeb | Cynaliadwyedd<br>Moeseg<br>Moesoldeb<br>Cyfiawnder<br>Cyfrifoldeb<br>Awdurdod<br>Hawliau<br>Gwerthoedd<br>Gweithredu Cymdeithasol |
| *Cysyniadau a nodwyd yn y Maes Llafur Cytunedig ond sydd heb gyfeiriad atynt yn y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig neu'r Disgrifiadau Dysgu* | Crefydd mewn cymdeithas<br>Gwybodaeth<br>Credoau sefydliadol<br>Gwahaniaethu<br>Arferion<br>Symboliaeth<br>Seciwlariaeth<br>Tarddiad<br>Natur bywyd<br>Eithafiaeth | | Defodau<br>Dathlu<br>Agwedd at fywyd<br>Bywyd<br>Natur y byd<br>Da<br>Traddodiad<br>Ffydd<br>Marwolaeth | | | Rhyddid<br>Drwg<br>Addoli<br>Gwirionedd<br>Realiti sylfaenol<br>Rhagfarn<br>Crefyddusrwydd<br>Cysegredigrwydd | |

## *Canllawiau Ategol ar y Maes Llafur Cytunedig - Lensiau*

Tabl sy'n crynhoi'r 7 lens a'r datganiadau 'Mae'n ymwneud â hyn' sy'n gysylltiedig â nhw sydd wedi'u cymryd o'r adran 'Teithiau Dysgu' ym Maes Llafur Cytunedig Siroedd Conwy a Dinbych ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

| Lensiau | Cyf. DoHB | Mae'n ymwneud â hyn | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Chwilio am ystyr a phwrpas**<br>*Sut mae pobl yn ymateb i gwestiynau dyfnach am fywyd er mwyn deall y cyflwr dynol.* | | 'cwestiynau dyfnach am fywyd' | 'dylanwad, parhad a newid' | 'ymchwilio a chyfrannu gan bobl' | |
| **Y byd naturiol a phethau byw**<br>*Sut a pham mae pobl yn dangos pryder a chyfrifoldeb tuag at y byd ac yn profi syndod a rhyfeddod at natur.* | | 'gofal, pryder a pharch' | 'syndod a rhyfeddod' | 'cyfrifoldeb a gweithredu' | 'lle a gofod' |
| **Hunaniaeth a pherthyn**<br>*Beth sy'n ein gwneud yr hyn ydyn ni fel pobl, cymunedau a dinasyddion yn byw mewn byd amrywiol.* | | 'beth sy'n bwysig i bobl' | 'credoau, gweithredoedd a chanlyniadau' | 'penderfynu' | |
| **Awdurdod a dylanwad**<br>*Sut a pham mae gwahanol fathau o awdurdod yn dylanwadu ar fywydau pobl* | | 'beth sy'n gwneud pobl yr hyn ydyn nhw' | 'cymunedau, cyfraniadau ac amrywiaeth' | 'lle, amser a chydberthnasau' | |
| **Cydberthnasau a chyfrifoldeb**<br>*Sut mae pobl yn byw gyda'i gilydd a pham ei bod yn bwysig datblygu cydberthnasau iach.* | | 'awdurdodau a dylanwadau' | 'profiadau a dehongliadau' | 'dewis a gweithredu' | |
| **Gwerthoedd a moeseg**<br>*Sut a pham mae pobl yn gwneud dewisiadau moesol a sut mae hyn yn dylanwadu ar eu gweithredoedd* | | 'sut mae pobl yn byw gyda'i gilydd' | 'cyfrifoldebau a chydgysylltiad' | 'lles, hunaniaeth a chynhwysiant' | |
| **Taith bywyd**<br>*Beth mae pobl yn ei brofi yn ystod taith bywyd a sut mae'r profiadau hyn yn cael eu cydnabod.* | | 'ystyr, pwrpas a dylanwad' | 'camau a digwyddiadau bywyd' | 'teithio corfforol ac ysbrydol' | |

Tabl sy'n amlinellu datganiadau 'Mae'n ymwneud â hyn' y teithiau dysgu a chanllawiau'r 'Camau Cynnar', 'Yn Bellach Ymlaen' ac 'Yn Ddiweddarach' ar gynnydd, wedi'u croesgyfeirio at y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig y maent wedi'u seilio arnynt yn bennaf.

### Taith ddysgu enghreifftiol 1: chwilio am ystyr a phwrpas



| Wedi'i seilio'n bennaf ar: | Mae'n ymwneud â hyn | Ar gamau cynnar eu taith… | Yn bellach ymlaen ar eu taith… | Yn ddiweddarach… |
|---|---|---|---|---|
| 'Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd' | 'cwestiynau dyfnach am fywyd' | dysgwyr yn dechrau gofyn cwestiynau dyfnach amdanyn nhw eu hunain ac eraill, ac am y byd naturiol a phethau byw o'u cwmpas (er enghraifft, 'Pwy ydw i?' a 'Pam mae pethau'n marw?'), yn ogystal â gwrando ar farn pobl eraill. | maen nhw'n casglu ac yn trafod mewnwelediadau crefyddol ac anghrefyddol ac yn ystyried eu barnau, safbwyntiau a dehongliadau eu hunain, a'r rhai sydd gan bobl eraill, mewn ffordd sy'n fwyfwy soffistigedig. | gellir rhannu, trafod a gwerthuso materion sy'n ymwneud â gwirionedd, ystyr, pwrpas a gwerth wrth i'r dysgwyr roi sylw mwy manwl i wahanol gwestiynau ymestynnol am y materion hyn (er enghraifft, bodolaeth da a drwg, natur dioddefaint, a'r defnydd o gyfoeth). Gallant ganfod bod ymatebion i gwestiynau o'r fath yn gymhleth, ac yn aml yn rhai rhannol ac amhendant. |
| 'Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl' | 'dylanwad, parhad a newid' | dysgwyr yn dechrau gwybod a mynegi beth maent yn ei hoffi a'i anhoffi, beth sy'n eu gwneud yn hapus ac yn drist, a beth yw eu gobeithion a'u breuddwydion ar gyfer y dyfodol, yn ogystal ag ymateb i syniadau pobl eraill. | gallant nodi a thrafod mewnwelediadau crefyddol ac anghrefyddol yn ymwneud â theimladau ac anghenion pobl, yn cynnwys beth sy'n dylanwadu ar y rhain a sut maent yn cael eu mynegi yn eu bywyd eu hunain a bywydau pobl eraill. | gall dysgwyr ddod i ganfod parhad a newid mewn ymatebion i gwestiynau am ystyr a phwrpas mewn bywyd, yn eu bywydau eu hunain ac mewn cymdeithas a diwylliant, ar draws amser a lle. Maent yn gwerthuso gwerthoedd a syniadau cyfoes perthnasol am hunan-barch o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. |
| *Mae cysylltiadau â Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig eraill a hefyd â Meysydd eraill y gellir edrych arnynt drwy'r is-lens hwn.* | 'ymchwilio a chyfrannu gan bobl' | dysgwyr yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o'r bobl a'r 'syniadau mawr' sydd wedi siapio lleoedd lleol a bywydau pob dydd. | maent yn dychmygu ac yn trafod beth allent ei gyfrannu nawr ac yn y dyfodol, ac yn meddwl fwyfwy am y berthynas rhwng dyhead ac ymarfer, wrth ystyried gwahanol gyfraniadau o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol. | wrth i ddealltwriaeth y dysgwyr ddatblygu, gallant wneud cysylltiadau mwyfwy cymhleth rhwng agweddau ar iechyd a lles, anghenion a gofynion y byd sydd ohoni a'u hymchwil eu hunain am ystyr a phwrpas. |

## Taith ddysgu enghreifftiol 2: y byd naturiol a phethau byw

| Wedi'i seilio'n bennaf ar: | Mae'n ymwneud â hyn | Ar gamau cynnar eu taith... | Yn bellach ymlaen ar eu taith... | Yn ddiweddarach... |
|---|---|---|---|---|
| 'Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol'<br><br>'Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol'<br><br>*Mae cysylltiadau â Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig eraill a hefyd â Meysydd eraill y gellir edrych arnynt drwy'r is-lens hwn.* | 'gofal, pryder a pharch' | dysgwyr yn dechrau dangos gofal a pharch at y byd naturiol a phethau byw o'u cwmpas. | gallant ganfod sut a pham maen nhw ac eraill yn dangos gofal, pryder a pharch, yn ogystal ag ystyried safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. | mewn ffordd fwyfwy soffistigedig, gall dysgwyr ddechrau codi, ac ystyried yn feirniadol, gwestiynau moesegol yn ymwneud â gweithgarwch dynol, natur a lle, gan drafod ymatebion crefyddol ac anghrefyddol a'u hymatebion eu hunain. |
| | 'syndod a rhyfeddod' | dysgwyr yn dechrau profi syndod a rhyfeddod tuag at natur, sy'n datblygu wrth iddynt ymchwilio i'r byd o'u cwmpas, gan arsylwi a gofyn cwestiynau. | mae ymdeimlad o gymhlethdod bywyd a'i gydgysylltiadau yn tyfu, yn ogystal ag ymdeimlad o gyfrifoldeb gweithredol. | mae profiadau o barch a rhyfeddod yn cael eu hamodi gan ymwneud dyfnach a mwy amrywiol â phobl eraill a hefyd â lle, yn ogystal â'r byd naturiol a phethau byw. |
| | 'cyfrifoldeb a gweithredu' | dysgwyr yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o amrywiaeth pethau byw y tu hwnt iddyn nhw eu hunain, a bod eu gweithredoedd yn gallu effeithio ar y rhain. | gallant ddod i wybod am 'storïau' crefyddol ac anghrefyddol am leoedd lleol, y byd naturiol a phethau byw, a sut mae'r rhain yn ymwneud â nhw eu hunain ac eraill. Drwy naratifau crefyddol ac anghrefyddol (er enghraifft, am ddechreuad y byd), gall dysgwyr ddysgu am wahanol ddamcaniaethau sy'n bwysig i'n dealltwriaeth o'r byd a lle pobl oddi mewn iddo. | mewn ffordd fwyfwy soffistigedig, maent yn dechrau canfod sut mae gwerthoedd a chredoau wedi'u hadlewyrchu mewn gweithredu, o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol, a sut mae'r rhain yn ymwneud â'u profiadau eu hunain. |
| | 'lle a gofod' | dysgwyr yn dechrau canfod eu bod wedi'u lleoli mewn lle a gofod, ac mae hyn yn ystyrlon iddynt. | maent yn canfod bod lleoedd a gofodau o'u cwmpas yn golygu pethau gwahanol i wahanol bobl, yn ogystal ag ystyried lleoedd sydd ag arwyddocâd arbennig am resymau crefyddol ac anghrefyddol. | gall dysgwyr ddechrau canfod ac egluro gwahanol leoedd (crefyddol ac anghrefyddol) y ceir dadlau yn eu cylch, gan werthfawrogi mathau o sensitifrwydd ynghylch lle. Gallant ddeall cymhlethdod dadleuon a dylanwadau fel hunaniaeth, awdurdod, gwerthoedd, moeseg ac ystyriaethau o ran ystyr a phwrpas mewn bywyd. |

## Taith ddysgu enghreifftiol 3: gwerthoedd a moeseg

| Wedi'i seilio'n bennaf ar: | Mae'n ymwneud â hyn | Ar gamau cynnar eu taith… | Yn bellach ymlaen ar eu taith… | Yn ddiweddarach… |
|---|---|---|---|---|
| 'Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd'<br><br>'Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol'<br><br>*Mae cysylltiadau â Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig eraill a hefyd â Meysydd eraill y gellir edrych arnynt drwy'r is-lens hwn.* | 'beth sy'n bwysig i bobl' | dysgwyr yn dechrau canfod beth sydd o werth iddynt (er enghraifft, tegwch, ymddiriedaeth, cariad, bywyd a charedigrwydd) ac maent yn gwrando ar farn pobl eraill. Gallant ganfod yr angen i barchu eraill a gallant ddangos beth mae hyn yn ei olygu yn eu bywyd pob dydd. | dysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol o wahanol ddehongliadau a mynegiadau o werthoedd cyffredin, gan werthfawrogi gwahanol ddylanwadau crefyddol ac anghrefyddol. Maent yn dysgu sut mae rhai gwerthoedd a hawliau wedi newid dros amser. Wrth i'w gwybodaeth a'u profiad dyfu, gall dysgwyr ddechrau trafod amrywiaeth o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol ar achosion o anghydraddoldeb ac anghyfiawnder, yn ogystal â'r heriau o bennu a diogelu hawliau dynol. | maent yn fwyfwy galluog o ran ffurfio, amddiffyn ac adolygu eu safbwyntiau moesegol ar faterion crefyddol ac anghrefyddol o bwys (er enghraifft, sancteiddrwydd bywyd, rhyddid mynegiant, lles anifeiliaid a rhyfel). |
| | 'credoau, gweithredoedd a chanlyniadau' | dysgwyr yn dechrau dangos dealltwriaeth o'r 'da a'r drwg' a sut mae eu gweithredoedd a'u teimladau'n ymwneud â hyn. | mewn ffordd fwyfwy soffistigedig a chynhwysfawr, gallant egluro sut y gall eu gweithredoedd ddod â chanlyniadau iddyn nhw ac eraill, ac i'r byd a phethau byw, gan fanteisio ar fewnwelediadau o wahanol grefyddau a chredoau athronyddol anghrefyddol. | gallant ddechrau rhagdybio a gwerthuso'r ffactorau sy'n dylanwadu ar eu hagweddau, ymddygiadau a gweithredoedd, a'r rheini sydd gan bobl eraill, yn cynnwys ffactorau sy'n ymwneud â chredoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol. |
| | 'penderfynu' | dysgwyr yn dechrau adnabod dilemâu moesol sylfaenol a chynnig atebion. | gallant ddysgu rheolau a chodau ymddygiad (crefyddol ac anghrefyddol) sy'n berthnasol iddyn nhw ac eraill o'u cwmpas, a gallant egluro eu heffaith ar fywydau pobl. | mewn ffordd fwyfwy soffistigedig, gall dysgwyr ddechrau canfod a thrafod yn feirniadol y cyfrifoldebau a heriau o benderfynu, gan ddangos dealltwriaeth o ffigyrau, prosesau a sefydliadau perthnasol sydd â rhan mewn penderfynu, mewn cyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol. Mae dysgwyr yn nodi cyfleoedd lle mae angen cymryd camau moesol priodol yn eu cymunedau, yng Nghymru ac yn y byd ehangach. |

## Taith ddysgu enghreifftiol 4: hunaniaeth a pherthyn

| Wedi'i seilio'n bennaf ar: | Mae'n ymwneud â hyn | Ar gamau cynnar eu taith... | Yn bellach ymlaen ar eu taith... | Yn ddiweddarach... |
|---|---|---|---|---|
| 'Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd'<br><br>'Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl'<br><br>*Mae cysylltiadau â Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig eraill a hefyd â Meysydd eraill y gellir edrych arnynt drwy'r is-lens hwn.* | 'beth sy'n gwneud pobl yr hyn ydyn nhw' | dysgwyr yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o bwy ydynt a'u bod yn debyg ac yn wahanol i bobl eraill. | maent yn trafod beth sy'n gallu ffurfio hunaniaeth (er enghraifft, cydberthnasau, ffyrdd o fyw, credoau a lle) a sut mae'r rhain yn dylanwadu ar bobl a'u cymunedau. | gall dysgwyr adolygu a gwerthuso amrywiaeth o ddamcaniaethau crefyddol ac anghrefyddol, agweddau at fywyd ac arferion sy'n ymwneud â beth mae bod yn ddynol yn ei olygu, a gallant ffurfio eu safbwyntiau eu hunain a'u hystyried yn feirniadol. |
| | 'cymunedau, cyfraniadau ac amrywiaeth' | mae dysgwyr yn dechrau deall eu bod yn rhan o wahanol grwpiau a chymunedau a beth mae perthyn yn ei olygu. Maent yn ymwybodol o amrywiaeth mewn cymunedau perthnasol a bod eu profiadau o berthyn yn debyg ac yn wahanol i rai pobl eraill. | gallant ymchwilio i fynegiadau o berthyn mewn nifer o gyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol gwahanol. Gallant drafod y pwysigrwydd o berthyn ym mywydau pobl, yn cynnwys eu bywyd eu hunain. | mewn ffordd fwyfwy soffistigedig, gall dysgwyr ddechrau canfod a gwerthuso cysylltiadau rhwng perthyn, ymrwymiad a chyfraniadau i gymdeithas, diwylliant a lles. |
| | 'lle, amser a chydberthnasau' | mae dysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol eu bod yn bodoli mewn lle ac amser, a bod hyn yn eu siapio nhw a'r cymunedau o'u cwmpas. | gallant ymchwilio i'r rhyngweithio rhwng gwahanol gymunedau a chymdeithasau, yn lleol ac yn ehangach, a gallant drafod y cyfraniadau gan hunaniaeth a pherthyn o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Gallant ddechrau adnabod parhad a newid mewn hunaniaeth a pherthyn, a sut mae'r rhain yn cael eu profi'n bersonol ac ar y cyd. | gall dysgwyr ymchwilio a gwerthuso cysylltiadau a rhyngddibyniaethau rhwng gwahanol grwpiau, cymunedau a chymdeithasau (ar lefel leol, genedlaethol a byd-eang) a sut mae'r rhain yn effeithio ar fywydau pobl a'r byd naturiol. Gallant ystyried yn feirniadol y rhan y mae hunaniaeth a pherthyn yn ei chwarae wrth ddeall ac ymateb i broblemau cyfoes cyffredin, o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. |

## Taith ddysgu enghreifftiol 5: awdurdod a dylanwad

| Wedi'i seilio'n bennaf ar: | Mae'n ymwneud â hyn | Ar gamau cynnar eu taith | Yn bellach ymlaen ar eu taith… | Yn ddiweddarach… |
|---|---|---|---|---|
| 'Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd'<br>'Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl'<br>*'Mae dinasyddion gwybodus, hunan-ymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol'*<br><br>*Mae cysylltiadau â Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig eraill a hefyd â Meysydd eraill y gellir edrych arnynt drwy'r is-lens hwn.* | 'awdurdodau a dylanwadau' | dysgwyr yn dechrau canfod eu bod yn cael eu dylanwadu gan rai pobl bwysig a bod hyn yn effeithio ar y ffordd maent yn teimlo, yn meddwl ac yn ymddwyn. | gallant ganfod ac ymchwilio i wahanol ffynonellau awdurdod o fewn cyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol (er enghraifft, arweinwyr, cydberthnasau, testunau, codau ymddygiad a thraddodiadau). Gallant ddod i ddeall bod ffynonellau awdurdod yn dylanwadu ar fywydau pobl mewn gwahanol ffyrdd. | wrth i ddealltwriaeth y dysgwyr ddatblygu, gallant ddadansoddi a gwerthuso cydberthnasau cymhleth (yn cynnwys eu rhai eu hunain) sy'n bodoli rhwng ac ar draws ffynonellau awdurdod. Gallant ddechrau ystyried yn feirniadol yr awdurdod sydd mewn profiad a chydwybod grefyddol ac ysbrydol, nawr ac yn y gorffennol, a'u heffaith ar bobl, cymdeithas a diwylliant. |
| | 'profiadau a dehongliadau' | dysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol o ddylanwadau pwysig ym mywydau pobl eraill, a bod eu profiadau'n debyg ac yn wahanol i'w rhai eu hunain. | gallant edrych ar y ffordd y mae ffynonellau awdurdod yn cael eu dehongli mewn gwahanol ffyrdd gan wahanol bobl a grwpiau, o fewn cyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol. Gallant ddod i adnabod dylanwadau ar ddehongliadau a deall bod rhai ffynonellau awdurdod yn bwysicach na'i gilydd i wahanol bobl, grwpiau a chymdeithasau. | gall dysgwyr dynnu ar nifer o ffynonellau awdurdod i werthuso dehongliadau crefyddol ac anghrefyddol o faterion sy'n berthnasol i'r cyflwr dynol, a gallant gyflwyno eu safbwynt eu hunain yn wybodus. Gallant ystyried yn feirniadol sut a pham mae profiadau a chysyniadau o awdurdod yn gallu newid dros amser. |
| | 'dewis a gweithredu' | dysgwyr yn dechrau deall bod eu gweithredoedd yn gallu cael eu heffeithio gan ddewisiadau. Gallant ddangos ymwybyddiaeth o ddylanwadau ar eu dewisiadau. | gallant ddechrau canfod sut mae pobl a chymunedau'n tynnu ar ffynonellau awdurdod crefyddol ac anghrefyddol i'w harwain yn eu bywydau a'u hystyried wrth wneud penderfyniadau pwysig. | wrth i ddealltwriaeth y dysgwyr ddatblygu, gallant ddefnyddio eu gwybodaeth a dealltwriaeth o wahanol ffynonellau awdurdod i feddwl yn feirniadol am bynciau neu ddadleuon moesegol cyfoes, a dylanwadu ar weithredoedd a chanlyniadau posibl (er enghraifft, her, consensws a chymodi). |

## Taith ddysgu enghreifftiol 6: cydberthnasau a chyfrifoldeb

| Wedi'i seilio'n bennaf ar: | Mae'n ymwneud â hyn | Ar gamau cynnar eu taith | Yn bellach ymlaen ar eu taith… | Yn ddiweddarach… |
|---|---|---|---|---|
| 'Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol' | 'sut mae pobl yn byw gyda'i gilydd' | dysgwyr yn dechrau deall eu bod yn byw mewn nifer o gydberthnasau. Maent yn ymwybodol o beth sy'n eu helpu i fyw gydag eraill. Gallant gynnig barn ynghylch sut i ddatrys anghytundebau. | gallant ganfod a thrafod sut mae pwysigrwydd cydberthnasau (personol, cymdeithasol, amgylcheddol a throsgynnol) yn cael ei fynegi ym mywydau pobl, gan dynnu ar gyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol. | gall dysgwyr ddod i ganfod bod cydberthnasau yn ddeinamig a chymhleth. Gallant ystyried yn feirniadol y dylanwadau sy'n gallu cyfrannu at gytundeb ac anghytundeb ar y lefelau byd-eang, lleol a phersonol (yn cynnwys dylanwadau crefyddol ac anghrefyddol). Gallant adolygu a gwerthuso heriau sy'n codi o gydberthnasau, gan dynnu ar wahanol fewnwelediadau a phrofiadau crefyddol ac anghrefyddol. |
| 'Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl' | 'cyfrifoldeba u a chydgysylltia d' | dysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol o gysylltiadau rhwng eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill, y byd naturiol a phethau byw. Gallant ddangos cyfrifoldeb tuag at eraill drwy weithredoedd syml. | gallant nodi sut a pham mae pobl yn dangos cyfrifoldeb tuag at bobl a lleoedd y tu hwnt i'w cydberthnasau personol. Gallant drafod agweddau materol ac anfaterol pwysig ar gydberthnasau (yn cynnwys agweddau ysbrydol, crefyddol a moesol), a gallant ddod i ganfod cysylltiadau â thwf pobl a sut mae pobl yn gallu byw'n gyfrifol gyda'i gilydd yn y byd. | gall dysgwyr ddechrau datblygu gwerthfawrogiad beirniadol o faterion pwysig sy'n effeithio ar gydberthnasau ar lefel fyd-eang a gallant feddwl am gydberthnasau posibl yn y dyfodol. Gallant feddwl yn feirniadol am wahanol ddamcaniaethau crefyddol ac anghrefyddol gan ystyried cydgysylltiad mewn bywyd, yn ogystal â natur a dealltwriaeth pobl oddi mewn iddo. |
| *Mae cysylltiadau â Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig eraill a hefyd â Meysydd eraill y gellir edrych arnynt drwy'r is-lens hwn.* | 'lles, hunaniaeth a chynhwysian t' | dysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol o'u profiadau a'u teimladau eu hunain wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill. Gallant ganfod bod profiadau a theimladau gan bobl eraill hefyd, sy'n debyg ac yn wahanol i'w rhai eu hunain. Maent yn dangos chwilfrydedd am fywydau pobl eraill. | gallant ystyried sut mae gweithredoedd yn gallu golygu ymrwymiad ac aberth sylweddol (nawr ac yn y gorffennol) a chael effeithiau mawr ar fywydau a lles pobl eraill ac ar y byd ehangach. Gallant ddechrau canfod cysylltiadau rhwng gweithredoedd a hunaniaeth, yn cynnwys dylanwadau crefyddol ac anghrefyddol. Gallant ganfod annhegwch ac anghydraddoldeb yn eu bywyd personol ac mewn cymdeithas ehangach ac awgrymu heriau priodol. | gall dysgwyr ystyried yn feirniadol beth yw natur cydberthnasau iach a sut maent yn cyfrannu at les, gan dynnu ar wahanol safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Gallant ddod i ddeall a gwerthuso cysylltiadau rhwng hunaniaeth bersonol a hunaniaeth grwpiau perthnasol. |

## Taith ddysgu enghreifftiol 7: taith bywyd

| Wedi'i seilio'n bennaf ar: | Mae'n ymwneud â hyn | Ar gamau cynnar eu taith... | Yn bellach ymlaen ar eu taith... | Yn ddiweddarach... |
|---|---|---|---|---|
| 'Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd'<br><br>'Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl'<br><br>Mae cysylltiadau â Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig eraill a hefyd â Meysydd eraill y gellir edrych arnynt drwy'r is-lens hwn. | 'ystyr, pwrpas a dylanwad' | dysgwyr yn dechrau canfod bod storïau bywyd personol gan bobl. Dysgwyr yn dechrau dweud eu stori bywyd eu hunain. | gallant ystyried amrywiaeth o lwybrau drwy fywyd y mae pobl wedi'u profi, gan dynnu ar gyd-destunau a dylanwadau crefyddol ac anghrefyddol. Gallant ddechrau canfod cysylltiadau â phwrpas a llunio ystyr. | gall dysgwyr ddadansoddi ac ystyried yn feirniadol y cysyniad o alwedigaeth, nawr ac yn y gorffennol, o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Gallant ystyried yr heriau sy'n codi ar lwybrau bywyd pobl a gwerthuso ymatebion crefyddol ac anghrefyddol. |
| | 'camau a digwyddiadau bywyd' | dysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol eu bod yn tyfu a newid dros amser. Maent yn profi ac yn cymharu sut mae eu twf eu hunain a thwf pobl eraill yn cael ei gydnabod a'i ddathlu. Gallant ddangos sut mae eu bywydau wedi'u cysylltu ag amseroedd a thymhorau arbennig. | gallant ystyried digwyddiadau bywyd pwysig a defodau newid byd, a gallant drafod y rhan y mae'r rhain yn ei chwarae ym mywydau pobl drwy dynnu ar fewnwelediadau crefyddol ac anghrefyddol. | gall dysgwyr ddadansoddi a thrafod yn feirniadol y gweithredu defodol gan bobl wrth nodi amser a digwyddiadau pwysig. Gallant ddechrau gwerthuso damcaniaethau perthnasol am amser o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol a dangos sut y gall y rhain gael effaith ar gredoau, arferion a gweithredoedd. |
| | 'teithio corfforol ac ysbrydol' | dysgwyr yn dechrau canfod eu bod yn mynd ar nifer o wahanol deithiau am wahanol resymau. Maent yn dangos diddordeb yn nheithiau pobl eraill a gallant weld sut mae eu teithiau nhw yn debyg ac yn wahanol i'w profiadau eu hunain. Maent yn ymwybodol bod agweddau ffisegol ar deithiau yn ogystal ag agweddau anfaterol. | Gallant ystyried profiadau pobl o deithiau pwysig o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol, a gallant nodi rhesymau dros y teithiau hyn. Gallant ddod i ddeall bod teithiau wedi'u cysylltu ag amser a lle. Gallant ddychmygu beth fyddai natur taith bwysig yn eu bywydau eu hunain. | gall dysgwyr ddadansoddi a gwerthuso cysylltiadau rhwng teithiau corfforol ac ysbrydol a'u heffeithiau ar fywydau unigolion, cymunedau a chymdeithas ehangach (er enghraifft, mewn perthynas â hunaniaeth, ffurfio pobl, amrywiaeth, diwylliant). Gallant ystyried yn feirniadol y cydgysylltiad rhwng teithiau, tirweddau a phobl ar draws lle ac amser, gan dynnu ar gyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol. |

| Gall ysgolion a lleoliadau ddefnyddio'r cwestiynau canlynol wrth gynllunio eu cwricwlwm ar gyfer CGM. | Ble rydym nawr? C O G | Tystiolaeth |
|---|---|---|
| A ydych wedi ystyried sut bydd CGM yn gweithio orau ym Maes y Dyniaethau? | | |
| A ydych wedi rhoi sylw i'r maes llafur cytunedig ar gyfer CGM? | | |
| A yw cynllun eich cwricwlwm ar gyfer CGM yn helpu i gyflawni'r pedwar diben? | | |
| A ydych wedi ystyried y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ar gyfer y Maes hwn wrth gynllunio'ch cwricwlwm? | | |
| A ydych wedi defnyddio cysyniadau CGM wrth gynllunio'ch cwricwlwm? | | |
| A ydych wedi ystyried nifer o wahanol is-lensiau ar gyfer edrych ar gysyniadau CGM wrth gynllunio'r cwricwlwm? | | |
| A ydych wedi ystyried cynnydd dysgu mewn CGM, gan ddefnyddio egwyddorion cynnydd a disgrifiadau dysgu ym Maes y Dyniaethau? | | |
| A ydych wedi ystyried y 'teithiau dysgu' a ddarparwyd i'ch helpu i ddeall cynnydd mewn perthynas â CGM? | | |
| A ydych wedi myfyrio ar deithiau dysgu posibl eich dysgwyr eich hunain wrth gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer CGM? | | |
| A ydych wedi cynnwys cyfleoedd i gyfoethogi profiadau'r dysgwr wrth gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer CGM? | | |
| A ydych wedi gwneud cysylltiadau allweddol rhwng CGM a Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill? | | |
| A ydych wedi cynnwys cyfleoedd ar gyfer datblygiad ysbrydol dysgwyr mewn CGM? | | |
| A yw cynllun eich cwricwlwm ar gyfer CGM yn sicrhau dyfnder, ehangder ac ansawdd dysgu priodol? | | |

<table>
<tr><td colspan="3">Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol<br>(CYSAG)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Cyfarfod:</td><td>20 Hydref 2021</td></tr>
<tr><td>Eitem ar y Rhaglen:</td><td>7</td><td>Manylion yr Adroddiad</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Cefndir yr Adroddiad:</u><br><br>Mae’n ofyniad statudol ar y CYSAG i lunio Adroddiad Blynyddol o’i waith a chyflwyno'r adroddiad hwn i AdAS erbyn 31 Rhagfyr.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Diben yr Adroddiad</u><br><br>Nodi a chofnodi gwaith y CYSAG yn ystod y flwyddyn<br>o fis Medi 2021 tan fis Gorffennaf 2022</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Argymhellion:</u><br><br>▪ Cymeradwyo’r adroddiad, yn amodol ar unrhyw newid, fel cyfrif cywir.<br>▪ Gofyn i’r awdurdod lleol gyfieithu’r adroddiad i’r Gymraeg, a’i anfon at bob ysgol a choleg yn Sir Ddinbych, ac unrhyw sefydliad arall yn unol â’r gyfraith ac fel y nodwyd yn yr adroddiad.</td></tr>
</table>

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



# Adroddiad Blynyddol

## Y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol



# 2021-22

## Rhagair

Rôl y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol:

Prif rolau'r CYSAG yw:

- Cynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion yn ymwneud ag Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd, neu Ddatblygiad Ysbrydol a Moesol;
- Ystyried ceisiadau gan Benaethiaid i'w hysgol gael ei rhyddhau o'r gofynion statudol i Addoli ar y Cyd i fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf o gymeriad Cristnogol (gelwir ceisiadau o'r fath yn 'Benderfyniadau');
- Gorchymyn fod Awdurdod Lleol yn adolygu ei Faes Llafur Cytunedig;
- Monitro darpariaeth Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn ysgolion yr Awdurdod Lleol;
- Rhoi cyngor ar y maes llafur cytunedig gydag athrawon Addysg Grefyddol, gan gynnwys y dewis o ddeunyddiau athrawon;
- Cynghori'r Awdurdod Lleol ar ddarparu hyfforddiant i athrawon (mewn AG);
- Ystyried cwynion am y ddarpariaeth a chyflawniad AG ac addoli ar y cyd a wneir i'r Awdurdod Lleol.
- Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei waith.

Cyfansoddiad y CYSAG:

Mae'r gofynion statudol dros sefydlu pwyllgorau CYSAG yn gorchymyn creu tri phwyllgor o aelodau:

- Cynrychiolwyr enwadau Cristnogol neu grefyddau eraill a'u henwadau i adlewyrchu prif draddodiadau crefyddol yr ardal leol;
- Cynrychiolwyr yr athrawon;
- Cynrychiolwyr y Cyngor Sir.

Mae hawl hefyd i gyfethol aelodau.

## CYNNWYS


| | Rhif Tudalen: |
|---|---|
| **1. Crynodeb Gweithredol** | 4-5 |
| **2. Cyngor i'r ALI:** | 6-13 |
| a) Addysg Grefyddol a'r Maes Llafur Cytunedig | |
| b) Dysgu ac addysgu a darparu Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon | |
| c) Addoli ar y Cyd | |
| d) Cyfansoddiad | |
| **3. Materion Eraill:** | 14-15 |
| a) Materion lleol | |
| b) Materion cenedlaethol: | |
| i. Estyn | |
| ii. AdAS (Addysg Cymru) | |
| iii. CCYSAGC | |
| c) Cwynion | |
| **4. Atodiadau:** | 16-21 |
| a) Cyfansoddiad y CYSAG | |
| b) Nifer o gyfarfodydd a'u dyddiadau | |
| c) Sefydliadau sy'n derbyn yr adroddiad | |
| d) Newyddlen | |


*Delweddau ar y clawr - wedi'u defnyddio gyda thrwydded o ddelweddau Adobe*

## Crynodeb Gweithredol

| ***Testunau/Materion:*** | ***Cyngor a roddwyd:*** | ***Wedi'i weithredu gan yr ALl:*** |
|---|---|---|
| AG: Maes llafur cytunedig | • Cynhaliodd Awdurdod Lleol Dinbych Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig (ASC) ar 14 Mawrth 2022. Cynghorodd yr ASC y dylai'r ALl fabwysiadu'r [Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg] fel sail ar gyfer y Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. | ✓ |
| AG: Safonau | • Nid oedd unrhyw adroddiadau ysgolion ar gyfer ysgolion a arolygwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2020-21 wedi'u dadansoddi gan CYSAG. | ✓ |
| AG: Dysgu ac Addysgu | • Mae canllawiau atodol wedi'u llunio i gefnogi dealltwriaeth ysgolion a chynllunio ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Cwricwlwm i Gymru 2022.<br>• Dylai'r ALl barhau i hyrwyddo a gwneud ysgolion yn ymwybodol o'r canlynol:<br>○ Canllawiau Cynhwysfawr ar gyfer AG<br>○ AG yn y Cyfnod Sylfaen<br>○ Marc Ansawdd AG<br>○ Ysgolion GwE i fod yn rhan o Lyfrgell o Adnoddau Dysgu Cyfunol i ysgolion<br>○ GwE wedi rhoi mynediad at ddeunydd addysgu i gefnogi ysgolion yn ystod argyfwng COVID<br>○ Rhwydwaith Hwb AG Gogledd Cymru<br>○ Mae'r newyddlen flynyddol yn cynnwys cyfeiriad at ddeunyddiau addysgu defnyddiol<br>○ Dyfarniad Lefel 2 Agored Cymru mewn Archwilio Bydolygon<br>○ Dysgu proffesiynol am amrywiaeth a gwrth-hiliaeth (DARPL)<br>○ Adnoddau gwrth-hiliaeth Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Grefyddol<br>○ Herio Materion Crefyddol Ôl-16 (E-ddyddlyfr) | ✓<br><br><br>✓<br>✓<br>✓<br>✓<br>✓<br>✓<br>✓<br>✓<br>✓<br>✓ |
| AG: Darparu Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon | • Nid oes unrhyw gyflwyniadau wedi'u derbyn gan ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon. | |
| Addoli ar y Cyd | • Cyhoeddodd CCYSAGC ganllawiau ar dynnu disgyblion allan o Addoli ar y Cyd - Hydref 2021. | ✓ |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfansoddiad | • Byddwn yn chwilio am aelodau cyfetholedig o ffydd a chredoau eraill ond nid yw COVID wedi caniatáu hyn yn 2020/21.<br>• Aelod ychwanegol sy'n cynrychioli bydolwg nad yw'n grefyddol i gael ei ychwanegu i'r grŵp ar CYSAG i gynrychioli Ffydd ac argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol yn unol â'r cyngor a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Ceisio cynrychiolaeth ar gyfer Dyneiddwyr ar gyfer Grŵp Pwyllgor A. | ✓<br>✓<br>✓ |
| Materion Eraill: Lleol | • Mae ail newyddlen wedi cael ei chyhoeddi – bydd yr ALI yn ei rhannu â phob ysgol. | ✓ |
| Materion Eraill: Cenedlaethol | • Mae'r Aelodau'n derbyn y wybodaeth ddiweddaraf o Adroddiadau Arolygon Estyn neu ddogfennau sy'n ymwneud ag AG ac Addoli ar y Cyd.<br>• Mae LlC wedi cyhoeddi canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br>• Mae'r CYSAG yn parhau i fod yn aelod o CCYSAGC. Mae cynrychiolwyr yn mynd i gyfarfodydd y gymdeithas ac yn adrodd yn ôl ohonynt. | ✓<br>✓<br>✓ |
| Materion eraill: Ychwanegol | • Dim materion ychwanegol. | |
| Cwynion | • Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion. | |


## 2. Cyngor i'r ALI:

### a. Addysg Grefyddol a'r Maes Llafur Cytunedig


#### i. Y Maes Llafur Cytunedig

**Maes Llafur ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (Cwricwlwm i Gymru 2022)**

Cynhaliodd Awdurdod Lleol Dinbych Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig (ASC) ar 14 Mawrth. Cynghorodd yr ASC y dylai'r ALI fabwysiadu'r Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel sail ar gyfer y Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Gwnaed newidiadau i sicrhau y gellir darllen y ddogfen fel Maes Llafur Cytunedig Sir Ddinbych ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac mae pob adran wedi'i rhifo er mwyn gallu edrych drwyddi'n hawdd.





Yn unol â'r newidiadau i'r Cwricwlwm i Gymru 2022, bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael ei addysgu i'r holl blant cynradd ac o bosib i ddysgwyr blwyddyn 7 o fis Medi 2022. Gall ysgolion uwchradd ohirio dysgu'r cwricwlwm newydd tan fis Medi 2023. Os yw ysgol uwchradd yn penderfynu gwneud hyn, byddant yn dysgu'r cwricwlwm newydd, gan gynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i flwyddyn 7 ac 8 ym mis Medi 2023. Bydd ysgolion uwchradd yn parhau i ddysgu cwricwlwm cyn 2022 (a elwir yn Cwricwlwm i Gymru 2008), gan gynnwys y Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Addysg Grefyddol, i ddisgyblion blwyddyn 8 ym mis Medi 2022 a bydd cwricwlwm 2008 yn eu dilyn yn ystod eu hamser mewn addysg uwchradd gorfodol.





I lawr lwytho copi o Faes Llafur Cytunedig Sir Ddinbych ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ewch i….
Cymraeg-
https://1drv.ms/b/s!Ai7Z9WAeWMNXhd9HfvczJ5abJjroPA?e=bugpZd
Saesneg –
https://1drv.ms/b/s!Ai7Z9WAeWMNXhd8mIfgDThYuSHs_Hg?e=mHlWCW

**Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Addysg Grefyddol (Cwricwlwm i Gymru 2008)**

Mae'r Maes Llafur Cytunedig newydd, sy'n cydymffurfio â gofynion y Cwricwlwm newydd i Gymru 2022, yn ymwneud â'r testun a elwir yn 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg'. Mae'r Maes Llafur Cytunedig blaenorol, sy'n parhau i fod yn berthnasol ar gyfer ysgolion uwchradd am y rhesymau a nodwyd uchod, yn ymwneud â'r pwnc a elwir yn 'Addysg Grefyddol'. Mae hyn yn wahaniaeth pwysig.



Mabwysiadodd Sir Ddinbych ‘Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol ar gyfer rhai 3-19 oed’ fel Maes Llafur Cytunedig Lleol ar gyfer ‘Addysg Grefyddol’ yn 2008. I lawrlwytho copi o’r Maes Llafur cytunedig ar gyfer Addysg Grefyddol ewch i:
Cymraeg -
https://1drv.ms/b/s!Ai7Z9WAeWMNXhJkPk7GnR4j8dGRkWQ?e=WUXJSs
Saesneg -
https://1drv.ms/b/s!Ai7Z9WAeWMNXhJkRqyAGO2b1HtmpnQ?e=D98kuj

**ii. Safonau**

**<u>Adroddiadau Arholiadau</u>**

Yn sgil canllawiau parhaus gan Lywodraeth Cymru ar y ffordd y cyflwynir data ac er mwyn osgoi cymariaethau mympwyol o ysgolion, ni chafodd yr aelodau’r data arholiadau ar gyfer yr arholiadau a gyflawnwyd yn 2019/20 ac felly nid oedd modd eu trafod.


Mae prif swyddog addysg Sir Ddinbych wedi mynychu holl gyfarfodydd CYSAG eleni. Mae perthynas llawer nes wedi bod rhwng yr ALl a’r CYSAG a bydd hynny’n parhau. Bydd y prif swyddog addysg yn gallu dod o hyd i ysgolion sydd angen cefnogaeth ychwanegol trwy hunanarfarniadau’r ysgolion, arolygon Estyn a thrwy gydweithio â’r consortia rhanbarthol.


**<u>Adroddiadau Arolygon</u>**

Nid oes unrhyw farn am bynciau yn fframwaith arolygu cyfredol Estyn. Yn hytrach, mae aelodau’n derbyn gwybodaeth o’r adroddiadau yn ymwneud â sylwadau Estyn am ddarpariaeth Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol ysgol. Gweler rhan c. Addoli ar y cyd – Monitro darpariaeth – Adroddiadau arolygon.

Bu i Estyn roi’r gorau i arolygon ysgolion yn ystod y pandemig. Ailddechreuodd Estyn yr arolygon yn ystod haf 2022. Ni chyflwynwyd unrhyw adroddiadau arolygon i aelodau CYSAG. Bydd hyn yn parhau yn 2022-23.

Cynhaliodd Estyn adolygiad thematig o Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 Cyhoeddodd Estyn ei ganfyddiadau ym mis Mehefin 2018. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion o ganlyniad i’r canfyddiadau. Cliciwch y llun i weld yr adroddiad:




Oherwydd cyfyngiadau parhaus COVID, nid yw CYSAG Sir Ddinbych wedi gallu gweithredu’r argymhellion ar gyfer Awdurdodau Lleol a chonsortia rhanbarthol, ond maent wedi’u cynnwys yn rhannol yn y cynllun gweithredu sy’n cychwyn yn 2021/22. Mae’r adroddiad ynghlwm yn amlinellu’r argymhellion a grynhowyd isod.

**Dylai ysgolion:**

A1 Sicrhau bod disgyblion mwy abl yn cyflawni yn unol â’u gallu mewn addysg grefyddol.

A2 Cryfhau trefniadau monitro a hunanarfarnu yng nghyfnod allweddol 2 i ganolbwyntio ar wella safonau a medrau disgyblion mewn addysg grefyddol.

A3 Cryfhau trefniadau pontio fel bod profiadau dysgu yng nghyfnod allweddol 3 yn adeiladu ar y rheiny yng nghyfnod allweddol 2 ac yn osgoi ailadrodd gwaith.

A4 Arfarnu eu cwricwlwm ar gyfer addysg grefyddol i baratoi ar gyfer datblygu a gweithredu Maes Dysgu a Phrofiad newydd y Dyniaethau.

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A5 Weithio gyda CYSAGau i ddarparu:

a. cyfleoedd dysgu proffesiynol addas ar gyfer athrawon addysg grefyddol.
b. cymorth i ysgolion arfarnu eu cwricwlwm a chynllunio ar gyfer addysg grefyddol fel rhan annatod o ddatblygu maes dysgu a phrofiad y dyniaethau.
c. cyngor i ysgolion ar sut i fynd i'r afael â materion sensitif gyda disgyblion a sut i ddelio â phryderon rhieni ar ymweld â mannau addoli.

A6 Sicrhau bod pob arweinydd yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.

A7 Rhoi arweiniad i ysgolion ar leoedd addoli cymeradwy i ymweld â nhw.

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A8 Weithio gydag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a CYSAGau i sicrhau bod eglurder ynglŷn â lle addysg grefyddol o fewn maes dysgu a phrofiad y Dyniaethau.


## b. Dysgu ac Addysgu

### Cwricwlwm i Gymru 2022

I gael gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru 2022 gwyliwch y sesiwn hyfforddi 35 munud o hyd a drefnwyd gan Gyngor Sir Ddinbych.

### Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - Canllawiau Atodol




Mae Canllawiau Atodol wedi'u llunio i gefnogi dealltwriaeth a chynllunio ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn cyd-destun y Cwricwlwm i Gymru 2022. Mae'r canllawiau yn cynnwys gwybodaeth am :

- Cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

- Cysyniadau wedi'u croesgyfeirio gyda Datganiadau AOLE Dyniaethau o Beth sy'n Bwysig a Disgrifiadau o Ddysgu
- Lensys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Teithiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Pwyntiau i ysgolion a lleoliadau eu hystyried.

Mae modd lawrlwytho copi gan ddefnyddio'r dolenni cyswllt isod:
Cymraeg -
https://1drv.ms/b/s!Ai7Z9WAeWMNXhd9Yj5eNwB9YBEA2XA?e=KaQ8Cr
Saesneg -
https://1drv.ms/b/s!Ai7Z9WAeWMNXhd9Fsz8MOiglHzmFSw?e=Ft4QkH

**GwE - Dadbacio AOLE y Dyniaethau (Uwchradd)**

Yn ystod tymor yr haf, darparodd GwE ddwy sesiwn hyfforddiant ar gyfer athrawon dyniaethau ysgolion uwchradd gan ddarparu negeseuon allweddol o ran yr AOLE hwn.
Canolbwynt y sesiwn gyntaf:

- Dealltwriaeth o elfennau hanfodol y fframwaith Cwricwlwm i Gymru mewn perthynas â'r Dyniaethau.
- Egwyddorion cynllunio ac ystyriaethau allweddol ar gyfer y Dyniaethau
- Ystyriaethau Addysgeg o fewn adran 'Dylunio eich cwricwlwm' a amlinellwyd yng nghanllawiau AoLE.

Cyflwyniad Cymraeg - http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2022/06/Dyniaethau-1.pdf
Cyflwyniad Saesneg - http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2022/06/Humanities-Session-1.pdf
Fideo Cymraeg - https://www.youtube.com/watch?v=b3LpzxDCERw&t=7s
Fideo Saesneg - https://www.youtube.com/watch?v=b3LpzxDCERw

Canolbwynt yr ail sesiwn:

- Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r continwwm dysgu
- Ystyried agweddau cynllunio ac asesu
- Archwilio ymagweddau addysgeg effeithiol o fewn a thu hwnt i'r AoLE

Cyflwyniad Cymraeg http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2022/07/Sesiwn-2-Dyniaethau_-CYFRWNG-CYMRAEG.pdf
Cyflwyniad Saesneg- http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2022/07/Session-2-Humanities-eng.pdf
Fideo Cymraeg - https://www.youtube.com/watch?v=Z1gemVVRzZQ
Fideo Saesneg - https://www.youtube.com/watch?v=ZuE-HbpwB1Y&t=3s

**Addysg Grefyddol**


Mae'r CYSAG a'r ALl yn y gorffennol wedi darparu dogfennau a deunyddiau cynhwysfawr i gefnogi'r Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Addysg Grefyddol, ac mae'r rhain yn cynnwys cyngor ar ddulliau addysgu a darparu AG.


Mae ysgolion yn parhau i gael mynediad at a defnyddio'r dogfennau cynllunio 'Canllaw Cynhwysfawr i AG' ac 'AG yn y Cyfnod Sylfaen', sy'n cyd-fynd â'r Maes Llafur Cytunedig. Gellir addasu'r adnoddau hyn ar gyfer darparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y sector cynradd a bydd yn parhau i fod yn berthnasol

i’r grwpiau blwyddyn sy’n astudio Addysg Grefyddol.  Mae'r adnoddau ar gael ar Rwydwaith Hwb - Rhwydwaith Addysg Grefyddol Gogledd Cymru. Er mwyn lawrlwytho copi o’r adnoddau hyn, ewch i:

**Canllawiau Cynhwysfawr i AG**

Cymraeg - https://drive.google.com/file/d/1OsNQ-UtnolkWTIWzxBuJQfz7tVLohhmI/view?usp=sharing
Saesneg - https://drive.google.com/file/d/1G9jCYby8XQJgg9m8JN6HYA3sr_jR5E18/view?usp=sharing







**AG yn y Cyfnod Sylfaen**

Cymraeg - https://drive.google.com/file/d/17itLQaqOsQ6WjLdk_ee1AlaigdqwKW0w/view?usp=sharing
Saesneg - https://drive.google.com/file/d/1X-9J8auJglQ-GzGk12o-002s81gdQ8tV/view?usp=sharing






**Marc Ansawdd Addysg Grefyddol**

Mae deunyddiau hunanarfarnu’n parhau i gael eu hyrwyddo ac ar gael ar wefan REQM.  Mae Marc Ansawdd AG yn cydnabod, dathlu a hyrwyddo addysg grefyddol ragorol yn holl ysgolion cynradd ac uwchradd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon trwy wobr ar dair lefel – efydd, arian ac aur.  Mae rhagor o wybodaeth am y marc ansawdd ar https://www.reqm.org/

**Adnoddau ysgol i ysgol**

Oherwydd y pandemig, anogwyd yr ysgolion i rannu adnoddau priodol ar gyfer ymagweddau dysgu o bell a dysgu cyfunol.  Mae’r adnoddau hyn yn parhau i fod ar gael ar wefan GwE. Mae gwersi Addysg Grefyddol ar gael.
Cymraeg - http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/ysgol-i-ysgol/
Saesneg - http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/ysgol-i-ysgol/?lang=en

## Adnoddau Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol GwE

Mae staff GwE wedi cynhyrchu adnoddau ategol a deunydd hyfforddi i gynorthwyo ysgolion gan y bu’n rhaid iddynt addasu i ffordd newydd o weithio. Mae’r adnoddau hyn yn parhau i fod ar gael.
Cymraeg - http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/dysgu-o-bell-a-chyfunol-adnoddau-gwe/
Saesneg - http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/dysgu-o-bell-a-chyfunol-adnoddau-gwe/?lang=en

## Rhwydwaith Hwb AG Gogledd Cymru

Mae deunyddiau addysgu ac ymchwilio ar gael ar gyfer athrawon trwy rwydwaith AG Gogledd Cymru - Hwb- https://hwb.gov.wales/go/d8tfh3. Dim ond y rhai gyda chyfrif Hwb fydd yn gallu cael mynediad at y deunyddiau ar y rhwydwaith. Mae’r rhwydwaith yn cynnwys adnoddau addysgu a deunydd ymchwil sy’n berthnasol ar gyfer Addysg Grefyddol. Deunydd ymchwil allweddol sydd ar gael:

- Religion and Worldviews: The Way Forward for RE (yn Saesneg yn unig)
- Big Ideas for Religious Education – Wedi’i olygu gan Barbara Wintersgill (yn Saesneg yn unig)
- Signposts – Policy and practice for teaching about religions and non-religious world views (yn Saesneg yn unig)

## DYFARNIAD LEFEL 2 AGORED CYMRU MEWN ARCHWILIO BYDOLYGON

Derbyniodd Aelodau CYSAG gyflwyniad am ddatblygiad Agored Cymru ar gyfer ‘Archwilio Bydolygon’, cyfres o gymwysterau lefel 1 a 2 yn cefnogi dealltwriaeth o fydolygon crefyddol a rhai nad ydynt yn grefyddol. Mae’r cymhwyster yn diwallu tair o sgiliau craidd a nodwyd yn y fframwaith enghreifftiol (cwricwlwm presennol), ac mae’n darparu cyfleoedd ar gyfer archwilio cysyniadau ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy ddatganiadau o’r hyn sy’n bwysig ym maes dysgu a phrofiad y Dyniaethau yn y Cwricwlwm i Gymru (cwricwlwm newydd). Nid yw wedi’i ddylunio i ddisodli TGAU Astudiaethau Crefyddol, ond, bydd yn darparu cymhwyster cydnabyddedig hygyrch gan ganiatáu i’r ysgol ddiwallu ymrwymiadau statudol yng Nghyfnod Allweddol 4. Gellir canfod rhagor o fanylion drwy fynd i
Cymraeg - https://www.agored.cymru/Unedau-a-Chymwysterau/Craidd-Dysgu/Archwilio-Bydolygon
Saesneg - https://www.agored.cymru/Units-and-Qualifications/Learning-Core/Exploring-Worldviews

## Dysgu proffesiynol am amrywiaeth a gwrth-hiliaeth (DARPL)

Cynhaliwyd digwyddiad rhithiol yn darparu rhagolwg o bolisi ar Ddysgu Proffesiynol am Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL) ar 3 Mawrth 2022. Mae rhestr chwarae sydd ar gael ar HwB yn cynnwys cyflwyniadau fideo gan Lywodraeth Cymru, y consortia rhanbarthol a thîm DARPL. Gellir cael mynediad i’r rhestr chwarae yma
Cymraeg - https://hwb.gov.wales/repository/resource/66c3a49d-e803-4f22-85d3-f17ae29001ac

Saesneg - https://hwb.gov.wales/repository/resource/66c3a49d-e803-4f22-85d3-f17ae29001ac

**Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Grefyddol**

Mae'r ysgolion wedi cael gwybod am adnoddau sydd ar gael gan NATRE. Yn anffodus, yn Saesneg yn unig y mae'r adnoddau hyn. Gellir cael mynediad atynt yma… https://www.natre.org.uk/about-natre/projects/anti-racist-re/

**Herio Materion Crefyddol Ôl-16 (E-ddyddlyfr)**







Mae Herio Materion Crefyddol yn ddyddlyfr ar gyfer myfyrwyr ac athrawon Astudiaethau Crefyddol UG a Safon Uwch. Mae'n adnodd defnyddio hefyd ar gyfer unrhyw un sydd eisiau datblygu neu adnewyddu eu dealltwriaeth o'r pwnc. Mae dros 65 o erthyglau dyddlyfr mynediad agored wedi'u cyhoeddi yn y dyddlyfr hyd yma ac mae'n cynnwys erthyglau gan ysgolheigion ac ymarferwyr blaenllaw. Mae'r erthyglau yn gysylltiedig â manylebau Safon Uwch Astudiaethau Crefyddol. Mae'r erthyglau yn rhyngweithiol drwy ddefnyddio 'pwyntiau trafod' a chysylltiadau byw gyda gwefannau allanol perthnasol. Mae'r holl rifynnau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae Canolfan San Silyn wedi ariannu a rheoli'r fersiwn Gymraeg o rifyn 14 ymlaen. Cliciwch ar y ddolen isod i gael mynediad at Herio Materion Crefyddol ar wefan San Silyn.
Cymraeg - https://stgilescentre.org/cy/16-2/
Saesneg - https://stgilescentre.org/16-2/

**Darparu Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon**


Ni dderbyniwyd unrhyw gyflwyniadau gan sefydliadau Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon eleni.

## c) Addoli ar y Cyd

**Monitro darpariaeth**

**Adroddiadau Arolygon**




Cafodd canllaw atodol Estyn ar arolygu addoli ar y cyd ei ddiweddaru ym mis Tachwedd 2017 ac mae'n parhau i nodi bod Estyn yn mynnu bod timau arolygu'n ystyried y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion a gweithrediadau dyddiol o addoli ar y cyd ym mhob ysgol anenwadol. Rhaid i dimau arolygu ystyried yr agweddau hyn ar bob arolwg ac mae pob adroddiad yn debygol o gynnwys rhai sylwadau am yr agweddau hyn o ddatblygiad disgyblion. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i arolygwyr adrodd ar ansawdd yr Addoli ar y Cyd. Dylai pob tîm arolygu bwyso a mesur arwyddocâd unrhyw gryfderau a gwendidau ymhob maes arolygu.

Ni ddisgwylir i arolygwyr adrodd i ddweud a yw ysgol yn diwallu'r ddyletswydd statudol i ddarparu gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd ai peidio, ond bydd disgwyl iddynt wneud sylw yn yr adroddiad pe bai ysgol yn torri ei dyletswydd statudol.

Fel rhan o'r broses o fonitro, caiff Adroddiadau Arolygiadau Estyn eu dadansoddi o ran sylwadau am addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol. Mae'r rhain yn cael eu casglu a'u nodi gan y CYSAG. Anfonir llythyrau at ysgolion ar ôl iddynt gael eu hystyried gan y CYSAG, yn canmol arferion da. Ailddechreuodd Estyn yr arolygon yn ystod haf 2022. Ni chyflwynwyd unrhyw adroddiadau arolygon i aelodau CYSAG yn 2021-22.

**HMS ar gyfer Addoli ar y Cyd**

Cyhoeddodd CCYSAGC ganllawiau ar dynnu disgyblion allan o Addoli ar y Cyd - Hydref 2021.
Cymraeg -
https://drive.google.com/file/d/149OtijKIL4F3qYbLXUVYzv4cRGhyk4IL/view
Saesneg -
https://drive.google.com/file/d/1ul4lrhlHGeDrKC2EYU3LpypJdsussTX0/view

**Penderfyniadau**

Nid oes Penderfyniadau wedi eu gwneud.

## d) Cyfansoddiad

Yn dilyn newidiadau i ddeddfwriaeth yng Nghymru, mae lle ar gyfer cynrychiolydd Dyneiddwyr Cymru ar Grŵp y pwyllgor.

## 3) Materion Eraill

### a) Lleol

Cyfarfu aelodau CYSAG dair gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd. Cynhaliwyd pob cyfarfod yn rhithiol.

Cynhaliwyd cyfarfod Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig yn rhithiol.

**Newyddlen**







Cyhoeddodd Conwy a Sir Ddinbych eu hail newyddlen. Mae'n cyflwyno newyddion i ysgolion yn ymwneud ag AG / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac mae'n hynod bwysig wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae'r ail rifyn yn cynnwys gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am gymhwyster Agored lefel 1 a 2, dolenni cyswllt i ganolfan San Silyn Wrecsam ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gwybodaeth am adnoddau datblygiad proffesiynol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gwybodaeth am E-ddyddlyfr AG ôl 16 o'r enw 'Herio Materion Crefyddol'. **Gweler Atodiad A.** Mae'r ALl wedi dosbarthu'r newyddlen i'r holl ysgolion ac mae'n cael ei rhannu ar Rwydwaith Hwb Addysg Grefyddol Gogledd Cymru.

### b) Cenedlaethol

**i. Estyn:**

Cafodd yr aelodau wybod yn flaenorol am fwriad Estyn i atal arolygiadau arferol o fis Medi 2020-21 er mwyn caniatáu amser i ysgolion baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd i ddechrau ym mis Medi 2022 (neu 2023 i rai ysgolion uwchradd). Er bod arolygiadau wedi'u hatal ym mis Mawrth 2020 oherwydd y pandemig, fe barhaodd y gohiriad ar arolygiadau ffurfiol yn ôl y disgwyl trwy gydol 2020/21. Er hynny, fe wnaeth Estyn wneud galwadau ffôn ac ymweliadau ymgysylltu â 410 o ysgolion cynradd, 185 o ysgolion uwchradd a 39 o ysgolion arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion i drafod lles, addysgu a dysgu ac arweinyddiaeth. Ailddechreuodd yr arolygon yn yr haf 2022.

**Fframwaith Arolygu Estyn, 2021 ac ymlaen:**

Cynhaliodd Estyn ymgynghoriad yn nhymor yr hydref 2020 ar drefniadau arolygu newydd a oedd i fod i gael eu cyflwyno'n wreiddiol ar ôl atal arolygiadau yn hydref 2021, ond o ganlyniad i'r pandemig, mae arolygiadau ysgolion wedi'u gohirio tan y Gwanwyn 2022. Oherwydd capasiti, nid oedd y CYSAG yn gallu cyflwyno ymateb, ond fe wnaeth yr aelodau drafod y ddogfen ymgynghori'n fanwl.

Cyhoeddwyd y fframwaith newydd ‘Beth rydym yn ei arolygu - Ysgolion a gynhelir ac UCDau’ ym mis Medi 2022 a gellir ei weld yma…
Cymraeg - https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-09/Beth%20rydym%20yn%20ei%20arolygu%20-%202022_0.pdf
Saesneg - https://www.estyn.gov.wales/system/files/2022-09/What%20we%20inspect%20-%202022_0.pdf

**ii. Llywodraeth Cymru – Addysg a Sgiliau:**

**Fframwaith Ategol ar gyfer AG**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu ‘canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg’ drafft yn ystod tymor y Gwanwyn 2022. Bwriad LlC oedd bod cynadleddau maes llafur cytunedig yn cynghori eu ALlau i fabwysiadu neu addasu’r canllawiau fel y maes llafur cytunedig nesaf.

Hysbyswyd aelodau’r CYSAG am adnoddau Dysgu Proffesiynol sydd ar gael i gefnogi cyflwyno’r cwricwlwm newydd, a grëwyd drwy gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru a CCYSAGC. Y bwriad yw cyhoeddi’r rhain erbyn yr Hydref 2022.

**iii. CCYSAGC**

Roedd Aelodau’r CYSAG a’r ALl yn cael eu cynrychioli yn nhri cyfarfod CCYSAGC, ac wedi derbyn rhai o’r cyflwyniadau yr oeddent wedi’u gwneud. Parhaodd CYSAG i dderbyn adroddiadau gan gynrychiolwyr a fynychodd gyfarfodydd y Gymdeithas. Mae cofnodion a phapurau o CCYSAGC hefyd wedi cael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd CYSAG. Mae cofnodion a chyflwyniadau i’w gweld ar wefan CCYSAGC http://wasacre.org.uk/.

## c) Cwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion gan y CYSAG.

## 4. Atodiadau:

### a) Cyfansoddiad y CYSAG

Yn Cynrychioli  Enwadau Crefyddol

Yr Eglwys yng Nghymru
Jennie Downes

Yr Eglwys Gatholig Rufeinig
Collette Owen

Undeb y Bedyddwyr
Disgwylir enwebiad  (Cymraeg)
Disgwylir enwebiad (Saesneg)

Presbyteraidd
Parch. Brian H Jones (Cymraeg)
Christine Thomas (Saesneg)

Methodistiaid
Parch. Martin Evans-Jones

Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig
Disgwylir enwebiad

Undeb yr Annibynwyr Cymreig
Disgwylir enwebiad

Cymdeithas y Cyfeillion Crefyddol
Dominic Oakes

Disgwylir enwebiad

Yn cynrychioli Cymdeithasau'r Athrawon:

Pennaeth Uwchradd
Leah Crimes

Pennaeth Adran Iau
Disgwylir enwebiad

Arbenigwyr AG Uwchradd
Sarah Griffiths

Pennaeth Babanod
Disgwylir enwebiad

Athrawon Ysgolion Arbennig
Ms.Ali Ballantyne

Athrawon Dosbarth Iau
Katie Mason (Cyfarfod yr Haf yn unig)

Athrawon Dosbarth Babanod
Disgwylir enwebiad

Yn cynrychioli  Cyngor Sir Ddinbych

Cynghorydd Ellie Chard
Cynghorydd Tony Flynn
Cynghorydd Emrys Wynne

Cynghorydd Rachel Flynn
Cynghorydd Tony Thomas
Cynghorydd Meirick Davies

Aelodau Cyfetholedig:
Tania Ap Siôn - Cyfarwyddwr Canolfan y Santes Fair

## b) Nifer o gyfarfodydd a'u dyddiadau

Cyfarfodydd CYSAG:

- 20 Hydref 2021
- 1 Chwefror 2022
- 23 Mehefin 2022

Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig

- 14 Mawrth 2022

## c) Sefydliadau sy'n derbyn yr adroddiad

- AdAS
- Ysgolion Sir Ddinbych
- Mae'r adroddiad ar gael ar wefan CCYSAGC ar gyfer sefydliadau cysylltiedig.

## Atodiad D




HELO a chroeso i AGored, y cylchlythyr sy'n ategu gwaith y CYSAGau yn Siroedd Dinbych a Chonwy. Dyma'r ail rifyn. Yn y rhifyn cyntaf, eglurwyd rôl a phwrpas y CYSAG a'r angen am gylchlythyr. Gallwch weld y rhifyn cyntaf yma. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd 'Llawlyfr i Aelodau CYSAG yng Nghymru' gan Gymdeithas CYSAGau Cymru. Mae'r canllaw defnyddiol hwn yn darparu manylion hefyd am bwrpas a rôl y CYSAG lleol.

I gael gwybodaeth am Gwricwlwm i Gymru 2022, gallwch wylio'r sesiwn hyfforddi hon sy'n 35 munud o hyd ac a drefnwyd gan Awdurdod Lleol Sir Ddinbych.



### Addysg Grefyddol a'r Cwricwlwm Newydd

Cyhoeddwyd y Cwricwlwm i Gymru ar 28 Ionawr 2020. Eglurwyd y newid o Addysg Grefyddol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn y rhifyn blaenorol. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn un o bum disgyblaeth benodol sydd ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau sy'n cynnwys Daearyddiaeth, Hanes, Astudiaethau Cymdeithasol ac Astudiaethau Busnes. Addysgir Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i'r holl blant mewn ysgolion cynradd ac efallai i ddysgwyr blwyddyn 7 o fis Medi 2022.

Gall ysgolion uwchradd ohirio addysgu'r cwricwlwm newydd tan fis Medi 2023. Os bydd ysgol uwchradd yn dewis gwneud hynny, bydd yn addysgu'r cwricwlwm newydd, yn cynnwys CGM, ym mlwyddyn 7 ac ym mlwyddyn 8 ym Medi 2023. Bydd ysgolion uwchradd yn parhau i addysgu'r cwricwlwm presennol, yn cynnwys y Maes Llafur Cytunedig presennol, i ddisgyblion ym mlwyddyn 8 ym Medi 2022 a bydd y cwricwlwm cyn 2022 yn eu dilyn drwy gydol eu hamser mewn addysg uwchradd orfodol. Enw'r cwricwlwm presennol yw Cwricwlwm Cymru 2008 a gellir ei weld ar wefan Hwb (yn gywir ar adeg ysgrifennu hyn).

### Yr Hawl i Dynnu yn Ôl

Ni fydd hawl i dynnu disgybl yn ôl o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ond bydd rhieni sydd â phlant yn derbyn yr Addysg Grefyddol bresennol (e.e. Blwyddyn 8, 9, 10 ac 11 ym Medi 2022) yn parhau i fod â'r hawl i dynnu eu plentyn yn ôl o Addysg Grefyddol. Gall hyn olygu y bydd rhieni'n gallu tynnu dysgwr yn ôl ym mlwyddyn 10 ond nid ym mlwyddyn 7.

### Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Ôl-16 Orfodol

Bydd addysg CGM ôl-16 orfodol yn cael ei dileu o fis Medi 2027, er y caiff disgyblion ofyn am ddarpariaeth CGM a rhaid i'r ysgol ufuddhau i gais o'r fath. I gael rhagor o fanylion am yr hawl i dynnu yn ôl ac am CGM Ôl-16, gweler Cwricwlwm i Gymru: crynodeb o'r ddeddfwriaeth.

### Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r Maes Llafur Cytunedig .

Mae'r Cwricwlwm i Gymru newydd ar gael ar wefan Hwb. Mae'n cynnwys yr holl wybodaeth y bydd ar ysgol ei hangen i gynllunio ei chwricwlwm. Mae'n cynnwys y newidiadau mewn deddfwriaeth a gwybodaeth am yr holl elfennau gorfodol, yn cynnwys y Pedwar Diben, y Meysydd Dysgu a Phrofiad a'r Disgrifiadau Dysgu. Mae maes penodol ar gyfer y Dyniaethau. Yn y maes hwn, mae adran 5, o'r enw Cynllunio eich cwricwlwm, yn amlinellu'r cysyniadau a chyd-destunau disgyblaethol penodol ar gyfer pob un o bum pwnc y Dyniaethau.

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, fel Addysg Grefyddol, yn parhau'n bwnc sy'n cael ei benderfynu'n lleol, felly mae pob Awdurdod Lleol yn gyfrifol am gytuno ar faes llafur i'w ysgolion lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol eu hystyried wrth lunio ei Faes Llafur Cytunedig. Mae CYSAGau Conwy a Sir Ddinbych wedi mabwysiadu cynnwys y canllawiau hyn fel Maes Llafur Cytunedig. Bydd y Maes Llafur Cytunedig ar gael ar wefannau awdurdodau lleol Conwy a Sir Ddinbych, ond cynghorir ysgolion i ddilyn y canllawiau ar CGM ar wefan Hwb wrth iddynt gynllunio'r meysydd CGM yn eu cwricwlwm.

**Efallai y byddwch wedi methu'r rhain:**

**Agored Cymru: Archwilio Bydolygon**

Mae Agored Cymru wedi datblygu 'Archwilio Bydolygon', set o gymwysterau lefel 1 a 2 sy'n hyrwyddo dealltwriaeth o fydolygon crefyddol ac anghrefyddol. Mae'r cymhwyster yn cwrdd â'r tri sgil craidd sydd wedi'u nodi yn y fframwaith enghreifftiol (y cwricwlwm presennol), ac mae'n darparu cyfleoedd i archwilio cysyniadau ar gyfer CGM drwy'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym maes dysgu a phrofiad y Dyniaethau yn y Cwricwlwm i Gymru (y cwricwlwm newydd). Nid yw wedi'i fwriadu i gymryd lle'r TGAU Astudiaethau Crefyddol bresennol. Fodd bynnag, bydd yn cwrdd â'r angen am gymhwyster cydnabyddedig hygyrch gan ganiatáu i'r ysgol gyflawni ei rhwymedigaeth statudol yng Nghyfnod Allweddol 4. Cliciwch yma i gael rhagor o fanylion.



Mae **Canolfan San Silyn** yng nghanol Wrecsam yng Ngogledd Ddwyrain Cymru ar dir Eglwys Blwyf drawiadol San Silyn. Mae'n ganolfan sy'n darparu cymorth CGM (RVE) arbenigol ac addoli ar y cyd i athrawon yn Wrecsam gan weithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol. Mae gwefan y Ganolfan yn cael ei diweddaru gyda digwyddiadau cyfredol sy'n berthnasol i CGM yng Nghymru. Mae'r adran 'Dysgu Profesiynol' yn cynnwys erthyglau newyddion, fideos hyfforddi a blogiau ysgrifenedig sy'n ymdrin â diweddariadau hanfodol am yr hyn sy'n digwydd ym myd CGM yng Nghymru, yn Lloegr ac ar draws Ewrop. Cliciwch yma i gael mynediad i'w gwefan.

---

Mae CYSAGau lleol yn cwrdd dair gwaith bob blwyddyn. Mae gwybodaeth ar gael am gyfarfodydd y CYSAG ar wefan yr Awdurdod Lleol.

Mae Sir Ddinbych yn chwilio am athrawon i ymuno â'i CYSAG. Lleoedd sy'n wag ar hyn o bryd ar gyfer athrawon:

- Pennaeth Ysgol Gynradd
- Athro/Athrawes Dosbarth Cynradd

---

I weld y Maes Llafur Cytunedig presennol ac adnoddau ar gyfer Addysg Grefyddol a chydaddoli, ymunwch â Rhwydwaith Hwb Addysg Grefyddol Gogledd Cymru … https://hwb.gov.wales/go/d8tfh3 a/neu grwpiau Microsoft TEAMS Conwy neu Sir Ddinbych. Anfonwch e-bost i lordp2@hwbcymru.net i gael rhagor o wybodaeth.

Adnoddau :

**HwB - Datblygiad Proffesiynol CGM**

Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu cyfres o fodiwlau Dysgu Proffesiynol ar CGM yn y cwricwlwm newydd. Bydd 10 rhestr chwarae ar gael yn ystod Tymor yr Hydref 2022. Bydd y pump cyntaf yn ymdrin â 'Beth sy'n Newydd' ar gyfer uwch arweinwyr ac athrawon mewn ystod o leoliadau ysgol a disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi ddechrau mis Medi. Bydd rhestri chwarae ar y sgiliau traws-gwricwlaidd, dilyniant, asesu ac addysgeg yn dilyn yn ddiweddarach yn y tymor.




**16+ Herio Materion Crefyddol**

Mae Herio Materion Crefyddol yn gyfnodolyn ar gyfer myfyrwyr ac athrawon Astudiaethau Crefyddol UG a Safon Uwch. Mae hefyd yn adnodd defnyddiol i unrhyw un sydd eisiau datblygu neu loywi eu gwybodaeth bynciol. Mae dros 65 o erthyglau mynediad agored mewn cyfnodolion wedi'u cyhoeddi yn y cyfnodolyn hyd yn hyn gan gynnwys erthyglau a ysgrifennwyd gan ysgolheigion ac ymarferwyr blaenllaw. Mae'r erthyglau'n gysylltiedig â manylebau Safon Uwch Astudiaethau Crefyddol. Mae'r erthyglau'n rhyngweithiol drwy ddefnyddio 'pwyntiau trafod' a dolenni byw i wefannau allanol perthnasol. Mae pob rhifyn ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae Canolfan San Silyn wedi ariannu a rheoli'r fersiwn Gymraeg o rifyn 14 ymlaen. Cliciwch yma i weld Herio Materion Crefyddol o wefan San Silyn.

---

Lleoedd sy'n wag ar hyn o bryd ar gyfer athrawon:

- Athro/Athrawes Dosbarth Cynradd
- Athro/Athrawes Ysgol Arbennig

---

Please contact *LordP2@hwbcymru.net* if you are interested or want more information

**Cylchlythyrau i ddod:** Hoffem gynnwys erthyglau am arferion da ar gyfer Addysg Grefyddol a Chydaddoli ledled Gogledd Cymru. Os hoffech gyfrannu i Reach, cysylltwch â LordP2@hwbcymru.net






**HELLO and welcome** to REach, the newsletter supporting the work of Denbighshire and Conwy's SACREs. This is our second edition. The first edition explained the role of purpose of SACRE and need for a newsletter, you can access the first edition here. The Welsh Association of SACRE recently published a 'Handbook for SACRE members in Wales'. This helpful guide also provides details about the purpose and role of a local SACRE.

For information about the Curriculum for Wales 2022 please watch this 35 minute training session organised by Denbighshire Local Authority.



## Religious Education and the New Curriculum

The Curriculum for Wales was published on the 28th January 2020. The change from Religious Education to Religion, Values and Ethics (RVE) was explained in the previous edition. Religion, Values and Ethics is one of five distinct disciplines contained in the Humanities AOLE which include Geography, History, Social Studies and Business Studies. Religion, Values and Ethics will be taught to all primary school children and possibly year 7 learners from Sept 2022.

Secondary schools may defer the teaching of the new curriculum until Sept 2023. If a secondary school chooses to do this they will teach the new curriculum, including RVE, to both year 7 and 8 in Sept 2023. Secondary schools will continue to teach the current curriculum, including the current Agreed Syllabus, to pupils in year 8 in Sept 2022 and the pre 2022 curriculum will follow them during their time in compulsory secondary education. The current curriculum is called Curriculum for Wales 2008 and can be accessed on the Hwb website (correct at the time of writing).

### Right to Withdraw

There will be no right to withdraw a pupil from Religion, Values and Ethics, but parents with children receiving the current Religious Education (e.g. Year 8, 9, 10 and 11 in Sept 2022) will continue to have the right to withdraw their child from RE. This may result in parents withdrawing a year 10 learner but not withdrawing a child in year 7.

### Compulsory Post 16 RVE

Compulsory post 16 RVE will be removed from September 2027, although pupils may request RVE provision to which a school must oblige. For more details about the right to withdraw and Post 16 RVE see the Curriculum for Wales Legislative Summary.

## Religion, Values and Ethics Guidance and the Agreed Syllabus.

The new Curriculum for Wales is available on Hwb. It contains all of the information a school will need to be able to design their curriculum. It includes the legislative changes and information about all the mandatory elements including the Four Purposes, the Areas of Learning and Experience and the Descriptions of Learning. There is a specific area for the Humanities. Within this area, section 5, titled Designing your Curriculum, outlines the specific disciplinary concepts and contexts for all 5 humanities subjects.

Religion, Values and Ethics, like Religious Education, is still a locally determined subject and as such each Local Authority has the responsibility of agreeing a syllabus for its local schools. Welsh Government has published Religion Values and Ethics guidance that all Local Authorities must have regard to when creating their Agreed Syllabuses. Both Denbighshire and Conwy SACREs have adopted the content of this guidance as their Agreed Syllabus. The Agreed Syllabus will be available from Conwy and Denbighshire's LA websites, but schools are advised to use the RVE guidance on Hwb as they design the RVE areas of their curriculum.

**You may have missed:**

**Agored Exploring Worldviews**
Agored Cymru has developed 'Exploring Worldviews', a suite of level 1 and 2 qualifications supporting an understanding of religious and non-religious worldviews. The qualification meets the three core skills set out in the exemplar framework (current curriculum), and it provides opportunities for exploring the concepts for RVE through the statements of what matters in the Humanities area of learning and experience in the Curriculum for Wales (new curriculum). It is not designed to replace the current Religious Studies GCSE, however, it will provide an accessible recognised qualification whilst allowing a school to meet its statutory obligation at Key Stage 4. Please click here for more details.



**St Giles' Centre** is situated in the heart of Wrexham in North East Wales within the grounds of the impressive St Giles' Parish Church. It is a centre that provides specialist RVE and collective worship support for teachers in Wrexham working in partnership with the Local Authority. The Centre's website is kept up to date with current events relevant to RVE in Wales. The 'Professional Learning' section contains news articles, training videos and written blogs that cover essential updates about what is happening in the world of RVE in Wales, in England and across Europe. Please click here to access their website.

---

Local SACREs meet three times each year, information about SACRE meetings can be found on your Local Authority Websites.

Denbighshire is looking for teachers to join its SACRE.
Current Teacher member vacancies:

- Primary Headteacher
- Primary Classroom Teacher

---

To access the current Agreed Syllabus and resources supporting RE and collective worship please join our North Wales Religious Education Hwb Network… https://hwb.gov.wales/go/d8tfh3 and/or our the Conwy or Denbighshire Microsoft TEAMs. Please email lordp2@hwbcymru.net for more information.

**Resources:**

**HwB - RVE Professional Development**
The Welsh Association of SACREs have been working in partnership to develop a suite of Professional Learning modules on RVE in the new curriculum. 10 playlists will be made available during the 2022 Autumn Term. The first five will cover 'What's New' for senior leaders and teachers in a range of school settings and are due to be published early in September. Playlists on the cross curricular skills, progression, assessment and pedagogy will follow later in the term.




**16+ Challenging Religious Issues**
Challenging Religious Issues is a journal for students and teachers of AS and A-level Religious Studies. It is also a useful resource for anyone who wants to develop or refresh their subject knowledge. Over 65 open access journal articles have been published in the journal so far including articles written by leading scholars and practitioners. The articles are linked to Religious Studies A-level specifications. The articles are interactive through the use of 'discussion points' and live links to relevant external websites. All issues are available in English and Welsh. The St Giles' Centre has funded and managed the Welsh language version from issue 14 onwards. Please click here to access the Challenging Religious Issues from the St Giles website.

---

Conwy is looking for teachers to join its SACRE.
Current Teacher member vacancies:

- Primary Head Teacher
- Primary Classroom Teacher
- Special School Teacher

---

Please contact *LordP2@hwbcymru.net* if you are interested or want more information

---

**Future Newsletters** We would like to include articles showcasing good practice for RE and Collective Worship across North Wales. If you like to contribute to REach please contact *LordP2@hwbcymru.net*



| **Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol<br>(CYSAG)** | | |
|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 20 Hydref 2021 |
| Eitem ar y Rhaglen: | **8** | Manylion yr Adroddiad |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Mae CYSAG yn parhau i fod yn aelod o Gymdeithas CYSAGau Cymru, ac yn derbyn adroddiadau ar gyfarfodydd gan aelodau a oedd yn bresennol, copïau o'r cofnodion, ac unrhyw adroddiadau eraill gan y Gymdeithas.

*Diben yr Adroddiad*

Bod aelodau'n cael eu hysbysu mewn perthynas â ffocws a phrif ganlyniadau'r cyfarfod blaenorol.

*Argymhellion:*

- Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar-lein 29 Mehefin 2022.
- Cytuno pwy fydd yn bresennol yng nghyfarfod nesaf CCYSAGC ar 23 Tachwedd 2022.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag